

ECO'R WYDDFA

Rhif 256

MAI 1999

Pris 30c

Colli Cymydog

Sul o wanwyn a'r awyr yn las. Blanced wen llathraidd dros ysgwydd a chopar Wyddfa; esgyrn eira ar lethrau'r Elidir. A lledodd ias o oerfel drwy'r ardal o glywed y newydd am farwolaeth Gwyndaf Jones yn frawychus o sydyn ac annhymig.

Symudodd Gwyndaf a'i deulu i Lanrug ddeng mlynedd ar hugain yn ôl o'i bentref genedigol, Mynydd Llandegai. Yn ystod y cyfnod hwnnw rhoes yr hogyn 'o'r Mynydd' ei wreiddiau'n ddwfn yn naear llawr gwlad bro Peris, a

chyfrannodd fwy i fywyd ei ardal fabwysiedig na degau o drigolion a fu byw yma gydol eu hoes. Taflodd ei hun i mewn i bob agwedd ar fywyd cymdeithasol yr ardal. Amhosib bron yw cronico'r holl fudiadau a gweithgareddau y bu'n ymwneud â hwy.

Yn fuan wedi ymsefydlu yn Llanrug fe'i penodwyd yn Glerc y Cyngor Cymuned, swydd y parhaodd ynddi i'r diwedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw ysgrifennodd ar ran y Cyngor rai cannoedd o lythyrau a derbyniodd nifer cymharol o gwynion hefyd mae'n siŵr. Gwelodd ddegau o gynghorwyr, gwych a gwachul, yn dadlau'n ddoeth ac yn gwag-siarad. Rhoes yr un parch a gwrandawriad iddynt oll. Roedd ganddo wybodaeth drylwyr o beirianwaith llywodraeth leol a bu nifer o gadeiryddion yn ddiolchgar am hynny wrth iddo eu cynnal mewn trafodaethau a phenderfyniadau dyrys.

Oherwydd ei frwdfrydedd amlwg ynglŷn â bywyd cymdeithasol yr ardal, gofynnwyd iddo sefyll etholiad ar hen Gyngor Bwrdeistref Arfon. Gwnaeth hynny yn enw Plaid Cymru gan ennill y dydd. Gwasanaethodd, hyd eithaf ei allu, holl drigolion etholaeth Llanrug am nifer o flynyddoedd. Bu'n gynghorydd gweithgar a chydwybodol a chymaint oedd y parch iddo gan gynghorwyr hŷn a mwy profiadol, fe'i etholwyd yn un o gadeiryddion ieuengaf pwyllgorau'r Cyngor.

Fel un a garai gerddoriaeth fe ymddiddorodd yn hynt a helynt Band Llanrug a bu'n gadeirydd gweithgar ar bwyllgor y Band yn ystod ei gyfnod mwyaf llwyddiannus pan frwydrodd y Band i frig cystadlaethau cenedlaethol yn Llundain, a thaith fythgofiadwy i Ewrop yn dilyn hynny. Bu hefyd ar gyfnodau yn
(Parhad ar dudalen 10)

FFLIO I FFLORIDA



'PRIODAS' YM MHENISARWAUN



Yn ddiweddar dathlwyd 'priodas' go arbennig ym Mhenisarwaun. I gael yr hanes yn llawn trowch i newyddion y pentref ar dudalen 14

Grant i wella'r Sefydliad Coffa yn Llanrug

Derbyniwyd cadarnhad bod cais y pwyllgor am grant i ehangu a gwella'r adnoddau sydd ar gael yn y Sefydliad Coffa wedi bod yn llwyddiannus. Mae Comisiwn Mileniwm wedi cytuno i roi grant o £90,000 a cheir grant ychwanegol o £22,500 gan y Swyddfa Gymreig.

Bwriedir ychwanegu llawr uwchben y stafell snwcer bresennol gan symud y byrddau yno. Bydd hyn yn galluogi defnyddio'r ystafell bresennol ar gyfer gweithgareddau. Bydd yr addasiadau hefyd yn cynnwys cegin newydd ac ystafell cyfrifiaduron. Bydd y cyfrifiaduron at ddefnydd holl aelodau'r gymuned.

Amcangyfrifir y bydd y gost lawn tua £180,000 ac er bod swm sylweddol eisoes wedi'i godi trwy weithgareddau amrywiol, a bod addewidion am grantiau a chyfraniadau eraill wedi eu derbyn, bydd yn rhaid gweithio'n galed i gyrraedd y swm a fydd yn sicrhau canolfan deilwng i'r pentref.

Bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf o'r Eco.



Bob Thomas a Goronwy Hughes gyda hen lun o'r Sefydliad Coffa a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn ddiweddar.

ECO'R WYDDFA

Rhif 256
MAI 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 27

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 17

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
MEHEFIN	MAI 17	MAI 27	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrâu

Ymchwilio Gwilym Rhug

Annwyl Olygydd,

Mewn gohebiaeth ddiweddar ag Adran Gymraeg y Brifysgol ym Mangor daeth cais am wybodaeth am W. E. Williams (Gwilym Rhug) awdur dramâu Cymraeg poblogaidd yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd.

Mae'n debyg ei fod yn byw yn Llanrug neu oddi yno yn wreiddiol. Beth tybed oedd ei waith — chwarelwr, pregethwr, ysgolfeistr? Gwnaeth awduron yr hen ddramâu neuadd bentref gyfraniad mawr yn eu dydd a cheisir cofnodi'r prif ffeithiau am rai ohonynt cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Tybed a all un o'ch darllenwyr gynorthwyo yr Adran Gymraeg i adnabod yr awdur dan sylw.

Buaswn yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth.

Yn gywir,

ROBERT WILLIAMS

Llain Gwta, 5 Gwelfynydd, Llanrug

Problemau'r Comisiwn Elusennau

Annwyl ddarllenwyr,

A gawsoch chi anhawster wrth geisio delio yn Gymraeg â'r Comisiwn Elusennau? A gawsoch chi gofrestru eich elusen yn Gymraeg? Ar ôl derbyn nifer o gwynion, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn casglu gwybodaeth am brofiadau'r cyhoedd, a hoffem gael gwybod am unrhyw anhawster a gawsoch. Rhowch wybod i ni am eich profiadau drwy lythyr at:

NIA MORGAN

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF1 2AT

neu ffoniwch (01222) 224744

Cymdeithas y Drindod

Annwyl Olygydd,

Mae'n siŵr bod llawer iawch o'ch darllewnyr yn gyn-fyfyrrwyr o Goleg y Drindod, Caerfyrddin a hoffwn iddynt wybod am ein bwriad i sefydlu Cymdeithas Cyn-fyfyrrwyr y Drindod ar Sadwrn, 22ain Mai, mewn DYDD AGORED i'r holl gyn-fyfyrrwyr.

Trefnwyd prynhawn a hwyr fydd yn lawn o weithgareddau amrywiol a diddorol yn y Coleg.

Am 3.30 o'r gloch cynhelir cyfarfod agored yng Nghanolfan Halliwell i sefydlu'r Gymdeithas yn swyddogol.

Os hoffai unrhyw gyn-fyfyrrwyr ddod i'r Drindod ar Fai 22ain, neu os y carent gael mwy o wybodaeth am y Gymdeithas, mae croeso iddynt gysylltu â mi ar (01267) 676767, neu anfon gair ataf yn y Coleg.

Yr eiddoch yn ddiolchgar iawn,

PETER HUGHES GRIFFITHS

Coleg y Drindod

Caerfyrddin SA31 1HE

Chwadan Bill Parry

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae hi'n ddeg mlynedd ar hugain ers i Bill Parry gychwyn am Awstralia yn ei Chwadan (DUKW). Er ceisio ddwywaith, methu â chyrraedd pen ei daith wnaeth Bill ac ers hynny daeth aml dro ar fyd yn ei hanes.

Mae RadioTeledu Tanlli yn chwilio am rai oedd yn adnabod Bill yn nyddiau ysgol, yn ystod cyfnod y Chwadan a'r cyfnod pan fu'n efengylu o gwmpas Caernarfon. Y bwriad yw cynhyrchu rhaglen radio hanner awr i Radio Cymru yn adrodd yr hanes.

Os oes gennych unrhyw atgofion amdano buaswn yn ddiolchgar iawn pe baech yn cysylltu â:

RadioTeledu Tanlli

7 Stryd yr Wyddfa

Pen-y-groes LL54 6NG

(01286) 881158

Yn gywir,

DAFYDD MEIRION (Cynhyrchydd)

Yr Eco ar Dâp

Annwyl Ddarllenwyr,

Ymhlith y llu bendithion rwy'n eu derbyn yn ddiolchgar, cael Eco'r Wyddfa ar dâp yw un ohonynt.

I'r rhai hynny sydd a'u golwg yn wan mae'n fendith fawr. Diolch i'r cyfeillion caredig sy'n mynd i'w ddarllen.

Yn gywir,

G. M. JONES

Y Dalar Deg, Llanrug

(Os oes rhywun yn awyddus i fanteisio ar y gwasanaeth gwerthfawr yma, cysylltwch â'r golygyddion am fanylion.)

PEIDIWCH A
GORI AR STORI
ANFONWCH HI
I'R ECO

Gwisgwch yn Addas!

Annwyl Olygydd,

Yn adroddiad Cyngor Cymuned Waunfawr yn rhifyn Ebrill o'r Eco gwelais, er syndod, y frawddeg ganlynol o eglurhad gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i gwyn y cyngor lleol ynglŷn â chyflwr rhyw lwybr neu'i gilydd '... gan mai llwybr cefn gwlad ydyw disgwylir i gerddwyr wisgo'n addas'.

Onid yw y rhan fwyaf o lwybrau cyhoeddus yn 'llwybrau cefn gwlad', a pham gwahaniaethu 'sgwn i rhwng llwybrau cefn gwlad â llwybrau o ryw fath arall, os ydynt yn bodoli? Yn ogystal, sut ar y ddaear mae'r cerddwyr i wybod beth yw cyflwr llwybr nes rhoi eu troed arno i'w galluogi i 'wisgo'n addas'? O ran hynny, onid dyletswydd y Cyngor sir yw gwarantu mai y llwybrau sydd mewn cyflwr addas ac nid y wisg? A'i dyma fydd ymateb y Cyngor Sir i bob cŵyn a ddaw o hyn ymlaen gan y gwahanol Gynghorau Cymuned?

I mi, fel cerddwr gweddol gyson, gyda peth syndod y sylwais i Gyngor Cymuned Waunfawr dderbyn y sylwadau hyn heb ofyn am eglurhad ar ateb mor hurt ac anelwig.

Yn gywir,

TROEDIWR LLWYBRAU GWYNEDD
(Cafwyd enw a chyfeiriad — Gol.)

Dadorchuddio Cofeb

Annwyl Ddarllenwyr,

Ddydd Sul, Awst 1af, 1999 bydd Antur Waunfawr yn cynnal cyfarfod i ddadorchuddio cofeb i John Evans (Mapiwr y Missouri) ac i agor y Tŷ Capel fel adnodd i'r gymuned.

Bydd un ystafell yn cael ei neilltuo fel amgueddfa leol ac mae'n fwriad gennym i geisio diogelu ac arddangos copïau o bob llyfr a gyhoeddwyd gan frodorion y Waun ac eraill â chysylltiad agos â'r pentref.

Byddem hefyd yn hoffi diogelu ac arddangos lluniau a dogfennau ac eitemau eraill sydd â chysylltiadau hanesyddol â'r pentref.

Os oes gennych lyfrau, dogfennau neu eitemau o'r fath yr hoffech eu rhoddi neu eu gwerthu i Antur Waunfawr, fe fyddwn yn falch pe baech yn cysylltu â mi.

Yn gywir,

R. GWYNN DAVIES

Cadeirydd Antur Waunfawr
Bryn Pistyll, Waunfawr
Caernarfon, Gwynedd LL55 4BJ

Ffôn: (01286) 650 721

Ffacs: (01286) 650 059

Galw Tyrchwrs Ysgol Brynrefail

Gan fod cymaint o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ymdrybaeddu yng ngêm 'y byddigions', sef golff, penderfynodd criw bychan y byddai'n eitha syniad eu galw ynghyd.

Os ceir digon o ymateb i'r apel hon yna gellir trefnu cystadleuaeth 'gyfeillgar' yn un o glybiau golff y gogledd yn ystod Mehefin, Gorffennaf neu Awst leni.

Fel man cychwyn gofynnir i unrhyw gyn-ddisgybl sy'n golffwr neu golffwraig gysylltu â'r tyrchwrs a ganlyn: **Awen (Parry gynt) 01286 870803** —

sleifar o golffwraig sy'n rhagori ar y 'greens'. **Arwel Jones 01296 871274** sydd wedi llwyddo i wneud mwy o lanast ar 'fairways' cyrsiau golff gogledd Cymru nag unrhyw twrch daear. **Vivian Williams 01248 353728**, 'pro Bangor' sydd wedi bod mewn mwy o 'byncars' na Musolini!

Cysylltwch yn ddiymdroi.



Diwrnod arall yn y 'black-board jungle'. Dydd Gwener, 16eg o Ebrill. Hei lwc, efallai y cawn fynd allan am dipyn i gofnodi'r tywydd yn yr Antur, os bydd Mrs T., yn fodlon. 12.6°C, dim yn union Seville, na'di, tywydd annifyr Ebrill, 'de. Mae pobl Seville yn dweud y math yma o beth . . . *¿Tiempo en Abril, sangrey caliente!* (weather in April, bloody hot!). Ond rydan ni yn yr ysgol wedi hen arfer â thywydd cymysglyd Ebrill. Ni pharhith fwy na wy ar drosol, dyna fydd Mrs T yn ei ddeud. Be fuasem ni'n ei wneud heb yr Antur? Mynd i nofio mewn -10°C! Neu mynd ar sledge i ben y Foel mewn tywydd braf! Mor bwysig yw gorsaf dywydd Antur Waunfawr.

Mae menter yr Antur yn helpu'r gymuned a ninnau yn yr ysgol. Mae llawer o'r pethau ar gael yn yr Antur bob dydd — y parc a'r siop . . . Drat! dyma fi wedi anghofio pen-blwydd fy nghyfnether eto. Dim rhaid

poeni gan fod Siop Bryn Pistyll yn lle penigamp i gael cerdyn sydd yn wir werth ei bris. Tra rydwi'n talu am y cerdyn mae'r jams a'r siwti yn denu fy llygaid.

Ar ôl ysgol byddai' hoffi mynd i'r parc. Mae bob tro yn dro gwahanol, a dydwi byth yn siŵr beth welai. Creyr mawr llwyd yn pysgota yn y llyn, neu wiwer a golwg euog anri, wedi bod yn dwyn cnau adar o ardd Bryn Eithin. Weithiau mae 'na niwl rhyfedd yn codi o'r coed yn union fel bod yno fandaliaid wedi codi tipi yno. Wel, hwyrach eu bod nhw eisiau gweld o ble ddaeth John Evans, eu ffrind mawr nhw.

. . . Hwrê, mae Mrs T yn fodlon, ffwrdd â ni i gofnodi'r tywydd — diwrnod arall yn Waunfawr.

PRYDERI TOMOS, 11 oed

Mae Antur Waunfawr yn ddiolchgar iawn i Pryderi am gyfrannu at y golofn y mis yma. Credai'r Antur fod ieuencid yn chwarae rhan holl bwysig yn natblygiad y gymuned, a hoffem yn fawr iawn petai ieuencid lleol yn cysylltu â'r Antur gyda unrhyw syniadau a/neu awgrymiadau ar sut fedrwn ni gydweithio er budd ieuencid y gymuned a'r Antur.

JANE EVANS

ANTUR PADARN

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cwmni Antur Padarn Cyf, nos Iau, 25 Mawrth 1999, am 7.00 yn y Ganolfan Gymunedol, Penisarwaun. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Glyn Tomos.

Yn ei adroddiad blynyddol cyfeiriodd y cadeirydd at y newyddion da bod menter Ardal y Llechen wedi llwyddo i ddenu cymorth ariannol o £6.7m tuag at hyrwyddo gweithgareddau a datblygiadau fydd yn y pen draw yn ysgogi ac yn ennyn hyder trigolion cymunedau sydd wedi dioddef sgil effeithiau cau y chwareli. Calondid o'r mwyaf oedd gweld hyn a bod unigolion o fewn yr Antur wedi cyfrannu at y broses o ddenu'r buddsoddiad hwn i'r ardal. Soniwyd hefyd am y sialens a ddaw yn sgil y cyhoeddiad bod ardaloedd Gorllewin Cymru am gael statws Amcan Un ac am fwriad y llywodraeth ganolog i foderneiddio llywodraeth leol, fydd ynddo'i hun yn gam pellach tuag at sicrhau llais pobl leol. Ymysg nifer o syniadau sy'n cael eu gwyntyllu o fewn y cyd-destun hwn, mae Cyngor Gwynedd, mewn dogfen drafod ddiweddar yn dwyn y teitl, 'Ai hon ydy'ch Gwynedd chi?' wedi nodi bod yna fwriad i sefydlu fforymau ymhob bro fydd yn gyfrifol am gynlluniau cymunedol lleol, sef cynlluniau cynhwysfawr i roi cyfeiriad i waith cyrff cyhoeddus a gwirfoddol yn y fro, gan adlewyrchu'n glir flaenoriaethau y gymuned leol.

Er mwyn i'r Antur chwarae rhan yn y datblygiadau hyn anogodd y cadeirydd i'r Antur

**FFAIR ANTIQUES
FAWREDDOG MÔN
MAES SIOE MÔN, MONA
(AR YR A5)
DYDD SADWRN a'r SUL
5 a 6 MEHEFIN 1999
10 y bore - 5 yr hwyr
Mynediad: £2
Dros 100 o arwerthwyr ledled Prydain
yn gwerthu pob math o greiriau
Lluniaeth ardderchog a rhesymol
Y FFAIR ANTIQUES BWYSICAF
YNG NOGLEDD CYMRU**

lunio rhaglen waith bositif gan ddenu eraill i ymuno yn y gwaith pwysig hwn. Awgrymodd bod yn rhaid i'r rhaglen fod yn llawn dychymyg a gwreiddioldeb er mwyn symud yr agenda ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu dycnwch a'u dyfalbarhad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Ail-etholwyd pob un o'r swyddogion a derbyniwyd yr Adroddiad Ariannol oedd wedi'i baratoi gan y trysorydd, Paul Rawlinson.

Cynhelir cyfarfod nesaf pwyllgor yr Antur am 7 o'r gloch, nos Iau, 29 Ebrill 1999, yn y Ganolfan Gymunedol, Penisarwaun. Croesewir aelodau hen a newydd i'r cyfarfod.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathwrms

Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Cefnogwch ein Hysbysebwr



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

THE PANNIER 50 STRYD FAWR LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

O SIAMBAR SELWYN

Rwy'n sylwi o fynd yn hŷn fod 'na ddigwyddiadau o ddyddiau plentyndod yn mynnu chwarae ar fideo'r cof yn weddol aml. Mae 'na ambell ddywediad a glywais pan yn blentyn wedi aros ar y cof dros y blynyddoedd hefyd.

Mi ges i fy magu yn y dyddiau hynny pan oedd mynychu'r capel ar y Sul yn orfodol. Yn wir, diflastod llwyr oedd cyfran helaeth o'r pregethau hirwyntog a glywais yn y cyfnod hwnnw. Dwi'n cofio iawn fel y byddwn i'n torri ar ddiflastod y bregeth trwy chwilio am eiriau a oedd yn odli a'i gilydd yn y llyfr emynau. Hefyd mi fyddwn i'n chwarae gêm rhwng Ann Griffiths a Williams Pantycelyn trwy agor tudalen o'r llyfr emynau ar siawns i edrych p'run o'r ddau oedd yn hawlio'r mwyaf o emynau ar y dudalen. Ia, gêm sgorio rhwng yr Danbaid Fendigaid Ann a'r Hen Bant, hyd nes y clywn y geiriau, 'Er mwyn Ei Enw, Amen' fel chwiban ola i'r gêm. Do, mi ddysgais i lawer am emynau tra byddai'r saint yn cael eu harwain i borfeydd gwelltog yr Efengyl.

Cofiwch chi, roedd gen innau yn y dyddiau cynnar hynny fy ffefrynu o bregethwyr ac mi fyddai'r gêm rhwng Ann a'r Hen Bant yn cael ei chanslo ar y Suliau hynny. Roedd Tegla yn ffefryn gen i — onid y fo oedd awdur *Hunangofiant Tomi a Nedw*, ac roedd o wedi anfon Rhys Llwyd i'r Lleuad mor gynnar â 1925. Na, doedd Ann a Williams ddim yn bod pan fyddai Tegla yn pregethu ym Methel. Roedd o'n gwybod sut i ennill cust plentyn.

Mi fyddai Meuryn yn llenwi pulpud Bethel yn achlysurol hefyd, yn fwrwm o gynghanedd. Dwi'n cofio ambell wers ramadegol a ddysgais o wrando ar Meuryn yn pregethu. Roedd o'n danbaid. 'Meddyliwch,' meddai, 'am rai yn sgrifennu "dychwelyd yn ôl" — bobol bach, ystyr "dychwelyd" ydi "dod yn ôl". Does dim angen "yn ôl" ar ôl "dychwelyd".' Dwi'n dal i gofio'r wers. Mi synnech faint o gyfansoddiadau

eisteddfodau fydda i yn eu darllen mewn blwyddyn â'r geiriau 'dychwelyd yn ôl' i'w canfod ynddyn nhw.

Ydi, mae dyddiau plentyndod yn mynnu dod i'r cof yn bur aml. Cofio mynd ar daith anturus unwaith o Fethel i Gaernarfon. Anturus? Oedd, o wneud y daith ar *roller skates*! Roedd hyn cyn dyddiau reidio beic. Ar ôl pasio'r scholarship i fynd i'r Cownti y byddai plant Bethel yn cael gwobr o feic.

Roedd Afon Tyddyn Oer yn ddigon o Amazon i ni fedru nofio ynddi yn y tridegau. I gwt Ffred Crydd (lle mae Bryn Chwilog heddiw) yr aem i brynu sigarêts ac i fwrw'n prentisiaeth fel 'smocwyr ar y slei'. Dwi'n cofio cyfnod hefyd o fynd i gwt rêl Bryn Pistyll (cwt lein trên y chwarel) lle byddai Robert Ifans — Bob If— yn rhannu dail te i ni wneud sigarêts *roll your own*. O, do, mi fŷm i'n sâl fel ci sawl tro. Sôn am y trên chwarel, mi fydden ni weithia yn gorwedd ar Bont Siarli a cheisio gollwng carreg i lawr corn y trên pan fyddai honno'n pwrffian o dan y bont. Tasg anodd — mwy anodd o lawer na gosod sach wlyb dros gorn simdde Cefn Bach, a chnocio drysau'r fro!

Cefn Bach oedd cartref John. Tipyn o gymeriad, nid oherwydd ei ffraethineb ond oherwydd ei ddiniweidrwydd. Cofiaf John yn sylcio'n bwt pan oeddann ni'n chwarae c'nebrwng unwaith gan ddatgan, 'Dwi ddim yn chwara os na chaf i fod yn hers.'

Mi dreuliais i oriau hefo John Hughes (John Seu) o flaen Fron Helyg. Doedd tai Y Rhos ddim yno pryd hynny — dim ond cors. Roedd John, er ei fod o dan anfantais corfforol, yn mwynhau pêl-droed ac mi roedd o oherwydd ei anabled yn 'cadw gôl'. Roedd y pyst gôl un prynhawn union gyferbyn â

fffenast Fron Helyg (cartref Megan Rowlands a'i rhieni). 'Gamp iti ddal hon,' meddwn i wrth John gan roi andros o gic mul i'r bêl ledr. Welodd John druan mohoni ond fe glywodd y glec ac fe laniodd y bêl ar y dresal ym mharlwr Fron Helyg. Daeth Mary Rowlands allan yn wyllt gan ddatgan yn glir, 'Wel, dyna chi wedi'i gneud hi rŵan — wn i ddim be ddeudith Huw pan ddaw o adra'. Fuo John Seu a finna ddim yn dangos ein doniau cicio pêl ar Gors Rhos byth wedyn.

Oes, mae 'na ambell ddigwyddiad ac ambell ddywediad yn mynnu dod i gof wrth i mi fynd yn hŷn.

Anghofia i byth y tro pan ges i fy nghadeirio am y tro cynta erioed. Wel, fy nghoroni a bod yn gywir. Eisteddfod Capel Gorffwysfa, Llanberis oedd hi. Y diweddar R. E. Jones (prifathro Ysgol Dolbadarn) oedd y beirniad. Yr Archdderwydd, gan mai fo oedd y beirniad adrodd,

oedd yn anfarwol Llwyd o'r Bryn. Achlysur go nerfus ydi codi ar alwad y Corn Gwlad — yn enwedig felly am y tro cynta. Dwi'n dal i gofio geiriau Llwyd o'r Bryn wrth ddal y cleddyf uwch fy mhen i — 'Mi fasa'n bechod i ni dorri'r pen hardd 'ma i ffwrdd efo'r cledda mawr 'ma, yn buasa!' — a'r 'er' yn taro fel cenllysg trwy Capel Gorffwysfa.

Bardd y Gadair yn y steddod honno oedd y diweddar Barchedig Isaac Jones a oedd yn weinidog eglwys Cefnywaun a roedden ni'n dau wedi herio'n gilydd i ennill y Gadair a'r Goron.

Tydi Capel Gorffwysfa ddim yno bellach ac ar alwad utgorn arall fe aeth Isaac Jones o'n plith ni hefyd, a hynny'n arswydus o sydyn.

Ydi, mae ddoe ac echdoe yn mynnu llithro i sgrin y cof yn weddol aml fel rydan ni'n mynd yn hŷn ac mae ambell atgof yn dod â gwên i'r wyneb yn ogystal â deigrin i'r llygaid.



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant
Ffôn: (01286) 870356

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau i Mr Arthur Williams, Pennant oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i dri o blant y pentref sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau cerdd. Mae Nicholas Welsby wedi pasio ei arholiad gradd 1, fflwt; mae Stephanie Welsby wedi pasio ei arholiad cornet gyda chanmoliaeth uchel; ac mae Gwen Mererid Tomos, Ty'n Twll wedi pasio ei arholiad gradd 1 piano. Da iawn, y tri ohonoch.

GWELLHAD. Gobeithio bod Nicholas Welsby yn gwella erbyn hyn wedi iddo gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau i Richard a Llinos, Ty'n Llan ar enedigaeth eu merch, Jane, chwaer fach i Rhys a Sara.

DIOLCH. Dymuna Bev a theulu Ted, 2 Bro Glyder ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth a'u colled. Diolch hefyd i staff Ward Conway, Clatterbridge a staff Ward 38, Arrowe Park, Penbedw. Diolch i bawb a gyfrannodd rodd at Ganolfan Oncology, Clatterbridge.

DOSBARTHYYDD. John Roberts, Glanrafon fydd yn dosbarthu'r Eco yn Nant Peris o hyn ymlaen. Diolch iddo am ei gymorth. Diolch hefyd i'r cyn-ddosbarthydd, Elwyn Searell Jones, Dwyfor am ei waith dros y blynyddoedd diwethaf yn sicrhau bod gwerthiant yr Eco yn y pentref yn cynyddu'n arw.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Eleri a Derek, Stad Tŷ Hen ar enedigaeth mab bychan, Robot John, brawd bach i Gwyndaf.

Merch fach, Angharad, a aned i Donna ac Emlyn, Tegfan. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i chwi deuluoedd ifanc sy'n ymgartrefu yn y Waun.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Wenna Lyn Williams, 5 Ael-y-bryn ar lwyddo yn arholiad gradd 1, therori cerdd.

Llongyfarchiadau i Meira Turner, Alun Williams ac Wmffra Jones ar eu llwyddiannau yn eisteddfodau'r fro; ac i'r côr ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Bontnewydd. Dymunwn yn dda i chwi i gyd yn yr eisteddfodau sydd i ddod.

LLONGYFARCHIADAU i aelodau a hyfforddwyr Parti Cŵn Actol yr Urdd ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc ichi yn y Genedlaethol ym mis Mehefin.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Bethan Hughes, Garddelen ar gyrraedd ei deunaw oed a phob dymuniad da i'r dyfodol. YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion i Manon Eluned, 11 Tref Eilian sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd. Dymuna Manon a Peter ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt yn eu colled drist yn ddiweddar.

Mae'n dda clywed fod Mrs Annie Bennett, Llechwedd a Miss Katie Roberts, Tref Eilian wedi dod gartref o'r ysbyty ac yn cryfhau a gwella o ddydd i ddydd.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn â Dr Helen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Yn dawel yn ei gartref, 22 Bro Waun, bu farw Mr Don Roberts. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Mrs Megan Roberts, ac â Graham a Marie yn eu profedigaeth o golli llys-dad.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Menna Rowlands, Ty'n Coed priod annwyl Colin a mam dyner Siân. Cydymdeimlwn â hwy yn eu colled fawr. Hefyd â'i mham, Mrs Helen Jones, Tref Eilian ac â Elwyn, Judith, Llifon ac Einir yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer. MEITHRINFA. Mae posibiliadau i sefydlu Meithrinfa yn Waunfawr ar gyfer y plant lleiaf — i wasanaethu Dyffryn Gwyrfa — sy'n cael ei archwilio gan ein Cynghorydd. Mae'r

Cynghorydd Eurig Wyn yn gofyn i unrhyw un â diddordeb i gysylltu ag ef neu â'r Swyddog Adfywio Bro, Eirian Jones yng Nghanolfan Waunfawr, (01286) 650 779.

Meddai'r Cynghorydd Wyn, 'Rwyf wedi bod yn siarad â'r rhai sydd â diddordeb yn y cynllun. Mae gobaith y bydd arian Ewropeaidd ar gael i gychwyn yn fenter, ond mae'n bwysig gweld faint o diddordeb sydd gan rieni i'r fenter. Mae'r nifer sydd wedi dangos diddordeb yn awyddus i gael gofal dros eu plant tra maent hwy'n gweithio. Gallai'r Feithrinfa ddatblygu hefyd i fod yn grŵp neu glwb chwarae gyda'r nos ac ar bawniau neu ddydd Sadwrn.'

Pwysleisiodd y Cynghorydd Wyn y byddai'r Feithrinfa ar gyfer plant o dan oed Ysgol Feithrin.

CLWB CYFEILLION YSGOL WAUNFAWR. Cynhelir Helfa Drysor gan y Cyfeillion nos Wener, 21ain o Fai am 6.30 p.m. o'r Ganolfan a bydd croeso cynnes i bawb ymuno yn y chwilio. Bydd cyfarfod pwyllgor Cyfeillion Ysgol Waunfawr i'w gynnal yn yr Ysgol nos lau, 10fed o Fehefin am 7.30 p.m.

DIOLCH. Dymuna Garry a Nia, Dolydd, 3 Stad Tŷ Hen ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur genedigaeth Dafydd ar Fawrth 18fed. Dymuna Dewi a Beryl hefyd ddiolch am y cardiau a'r galwadau a dderbyniant hwythau ar yr achlysur hapus hwn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Idris Jones, Goleufryn ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Daeth ei mab, Bryn, a'i deulu adref o'r Almaen i ymuno yn y dathlu. Dymuna Mrs Jones a Bryn ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at gartref sy'n helpu merched â nam meddwl ym Mwgaria. Bu Mrs Jones ar ymweliad â'r cartref a dychrynodd o weld yr angen a'r tloidi. Mae Bryn yn weithgar iawn yn helpu i wella'r sefyllfa yn y cartref hwnnw trwy'r prosiect 'Helpu Bwlgaria' ac mae'r cyfleusterau yno'n gwella er bod llawer o waith i'w wneud eto.

DIOLCH. Mae'n bleser gennyf ddiolch o galon i etholwyr Waunfawr am ganiatáu i mi ddychwelyd yn ddi-

wrthwynebiad i'w cynrychioli ar Gyngor Sir Gwynedd. Fe wna fy ngorau i'w cynrychioli hyd eithaf fy ngallu dros y bedair blynedd nesaf — Eurig Wyn.

DYMUNO'N DDA. Cyn y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg bydd nifer o'n pobl ifanc wedi cychwyn ar eu arholiadau TGAU a Lefel Uwch. Cymerwn y cyfle hwn i ddymuno yn dda i bob un ohonoch. Gwnewch eich gorau.

ENILLWYR y Clwb 300 am fis Chwefror: £40 Mr J. H. Edwards, Aneddle; £25 Mr I. Huws-Roberts, Bodrida; £10 Mr I. Bracegirdle, 2 Bro Waun. Mis Mawrth: £40 Mrs I. Gossett, 3 Pant Waun; £25 Dr Huw Roberts, Y Feddygfa; £10 Mr Alun Williams, 13 Bro Waun. Mis Ebrill: £40 Mr Don Roberts, Sŵn-y-gwynt; £25 Mr Jack Jones, Bod Idro; £10 Mrs Beryl Jones, Dol-y-coed.

ER COF am Menna Rowlands, Ty'n Coed, Waunfawr, fu farw ddydd Sadwrn, 3 Ebrill, yn 49 mlwydd oed.

Deuthum i gysylltiad â hi am y tro cyntaf ryw ddeng mlynedd yn ôl. Ar y pryd roedd nifer ohonom yn cyfarfod yn Ysbyty Gwynedd fel aelodau o bwyllgor yr elusen Headway Gwynedd, i geisio gwella stad y rhai hynny a dderbyniodd niwed difrifol i'r ymennydd. Yr oedd Colin eisoes yn aelod brwdfrydig a gweithgar o'r elusen ac yn fuan iawn ar ei ôl fe ymunodd Menna hefyd. Roedd ei chyfraniad i Headway yn amhrisiadwy ac yn fuan wedi iddi ymaelodi fe'i hetholwyd yn ysgrifenydes ac, fel y disgwylic, fe weithiodd yn galed a dirwgnach hyd yn ddiweddar. Fel pwyllgor gwerthfawrogem ei chyfraniad yn fawr iawn.

Gwraig dawel ydoedd ac, yn sicr, yn 'un o bobol yr ymylon'. Ni fyddai byth yn tynnu sylw ati'i hun a phur anaml y mynegai farn yn gyhoeddus, ond pan fyddai'n teimlo bod ganddi rywbeth gwerth ei ddweud, mynegai hynny yn gryno ac eglur. Byddem bob amser yn ystyried yn ofalus yr hyn oedd ganddi i'w ddweud, oherwydd nid oedd dim byrbwyltra yn perthyn iddi ac yr oedd yn amlwg yn meddwl yn ofalus cyn mynegi barn.

Carai ei chartref a'i theulu yn fwy na dim a mynegodd wrthyf droeon y byddai'n llawer hapusach yng nghlydwch ei chartref nag yn unman arall; er hynny, pan fyddai mewn cwmni, byddai'n llawn hiwmor a ffraethineb. Roedd yn wraig ddeallus, does dim amheuaeth am hynny, ac yn ystod y blynyddoedd y cefais y pleser o gyfathrebu a chyfathrebu â hi, parchwn bob amser y deallusrwydd hwnnw yn fawr iawn.

Cymraes oedd hi, a'r Gymraeg oedd ei mamiaith a charai yn ddiameuol ei chymuned a'i hamgylchedd.

Roedd hi'n arlunwraig ddawnus a dyfeisgar a mynegai ei chariad tuag at ei chynffin trwy greu darluniau ystyrlon, gyda gweledigaeth yr artist, â dawn greadigol unigryw iawn. Mewn gwirionedd roedd hi ar un cyfnod wedi bwriadu ymaelodi mewn coleg celf i astudio arlunio, ond i'r banc yr aeth hi ac yna i gwmni trydan Manweb, lle treuliodd ddeng mlynedd ar hugain o'i hoes.

Y mae ei hymadawiad yn golled aruthrol i Colin a Siân, yn golled i'w theulu agos, yn golled i'w chyfeillion, yn golled i'w chymuned ac yn golled i Meriel a minnau.

CLED

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

Cefnogwch ein Hysbysebwy

IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

SPAR

Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CHWILOTA

TRAFFERTHION DŴR GLÂN I LANDDEINIOLEN



1. *Erw Bian Water Supply*. Diddorol oedd darllen sylwadau Selwyn Griffith yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco* ynglŷn â hanes Cyngor Plwyf Llanddeiniolen. Erbyn heddiw mae cofnodion a llythyrau cynghorau'r fro yn uniaith Gymraeg, ond nid felly roedd hi ers talwm. Yn ddiweddar deuthum ar draws llythyr wedi'i ysgrifennu gan Glerc Cyngor Llanddeiniolen i Capten Stewart, asiant Stâd y Faenol. Roedd wedi ei ysgrifennu ar bapur swyddogol y Cyngor gyda'r pennawd *Llanddeiniolen Parish Council* mewn llythrennau breision ar dop y ddalen. Yna cyfeiriad y Clerc: *Bryn Teg, Clwt y Bont, Cwm y Glo R.S.O.*

Y Clerc oedd J. D. Williams a ysgrifennai i asiant y Faenol ynglŷn â'r *Erw Bian Water Supply* ar y 15ed o Dachwedd 1902. Yn y llythyr mae'r Clerc yn cadarnhau iddo dderbyn sicrwydd gan Capten Stewart fod Stâd y Faenol yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am hanner y gost o suddo am ddŵr ac adeiladu pwmp ar gyfer trigolion Erw Bian, Llanddeiniolen. Eglurai'r Clerc y byddai'n rhoi'r wybodaeth gerbron y Cyngor Plwyf yn eu cyfarfod nesaf, gan obeithio y byddent hwythau'n cytuno i dalu gweddill y gost.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith fod y Cyngor Plwyf yn cyfarfod am hanner dydd ar bnawn Sadwrn. Meddyliwch mewn difrif beth fyddai adwaith cynghorwyr (a chlercod!) heddiw pe byddai rheidrwydd iddynt gynnal eu cyfarfodydd ar bnawniau Sadwrn ar droad y mileniwm!

Yn anffodus, doedd dim cofnod ynghlwm â'r ddogfen i roi gwybodaeth ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd i gynllun dŵr Erw Bian. Tybed oes rhywun o'r darllenwyr yn cofio tai Erw Bian yn rhannu cyflenwad dŵr o bwmp? Ydi olion yr hen bwmp dŵr ar gael yn ymyl y tai heddiw tybed?

2. *Dŵr i bentref Brynrefail*. Ddechrau'r ganrif hon hefyd yr adnewyddwyd cyflenwad dŵr i bentref Brynrefail. Mae'r

wybodaeth ar gael mewn copi o lythyr a anfonwyd oddi wrth J. W. Griffith ar ran Cyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfaei i P. Harding o Fryn Tirion, Y Felinheli a weithredai ar ran Stâd y Faenol. Dyddiad y llythyr yw'r unfed ar bymtheg o Awst 1907. Yn y llythyr mae J. W. Griffith yn olrhain rhywfaint o hanes cyflenwi dŵr i bentref Brynrefail.

Mae'n ymddangos oddi wrth y llythyr fod pibell ddŵr wedi'i gosod o Gae Coch i'r pentref tua 30 mlynedd ynghynt (sef tua 1877), ac mai gŵr o'r enw Mr Parry fu'n gyfrifol am hynny. Roedd Mr Parry yn rheolwr o rhyw fath yn Chwarel Dinorwig — fe'i disgrifir fel, *'in charge at the quarry'*. Tybid hefyd fod cysylltiad gan y Mr Parry hwn â Stâd y Faenol. Fel hyn mae'r llythyr yn darllen: *'Mr Parry gave the people of Brynrefail the whole thing; a cistern at Cae Coch with a threequarter inch lead main to the village and a stand pipe.'*

Adroddir hefyd mai unig gyfraniad trigolion Brynrefail i'r fenter oedd llafur i gloddio'r bibell, ond fod un neu ddau o unigolion wedi cyfrannu sofrren er mwyn cael *'private connection'*! Y pentrefwyr oedd i ofalu am y sistem ar eu cost eu hunain wedi hynny ac etholwyd pwyllgor i fod â chyfrifoldeb am y cyflenwad dŵr.

Parhaodd y drefn hon hyn 1901, ond erbyn hynny roedd yr

holl sistem yn ddiwerth, ac o ganlyniad i dwf yn nifer y tai yn y pentref, daeth y cyfan yn gyfrifoldeb Cyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfaei, ac fe'i hadnewyddwyd. Bu'n rhaid i'r Cyngor ofyn i Capten Stewart, asiant y Faenol, am ganiatâd i ailgloddio o Gae Coch i'r pentref, ac fe'i cafwyd ar yr amod fod tenant Cae Coch, G. Ellis, yn cael hawl i dynnu dŵr o'r sistem at ei ddefnydd ei hun a'i fod yn cael pwmp dŵr wedi ei osod ar ei dir.

Erbyn mis Awst 1918 roedd pibell ychwanegol wedi ei chysylltu i Gae'r Gwyddel ac i Fryn Derw a Chyngor Gwyrfaei yn talu iawndal am yr hawl i dynnu dŵr o Gae Coch.

Tybed a oes rhai o drigolion hynaf Brynrefail yn cofio pwy fentrodd dalu sofrren i gael eu cysylltiad preifat eu hunain, ac a oes olion o'r hen bympiau dŵr ar ôl yn ardal Cae Coch?

3. *Petisiwn y Fachwen*. Does dim dyddiad ar gyfer yr achos olaf hwn, ond mae'n amlwg yn perthyn i gyfnod cynharach na'r ddau uchod. Petisiwn ydyw oddi wrth drigolion y Fachwen i Assheton Smith o'r Faenol ynglŷn â chyflenwad dŵr i'r ardal yn ystod hafau poeth (mae'n rhaid bod y fath bethau i'w cael yn y ganrif ddiwethaf!). Byrdwn y petisiwn yw'r ffaith fod posibilrwydd i nifer helaeth o drigolion y Fachwen golli hawl mynediad i ffynnon arbennig oherwyd fod Stâd y Faenol yn cau tir y, *'New Park which is now being enclosed at or near Penllyn'*. Nid yw union leoliad y 'Parc Newydd' yn eglur, ond mae'n amlwg ei fod yn effeithio ar denantiaid rhannau isaf y Fachwen.

Dyma sut mae gweddill y petisiwn yn darllen: *'That part in which the houses we occupy are situated, is such than on very dry weather in summertime, water for domestic purpose is scarce, and has to be fetched from some distance. The source from which we get water at such times is a well which will now be enclosed in the New Park which will deprive us henceforth from having its benefit in dry*

seasons . . .' Mae'r trigolion yn ymbil yn y petisiwn ar i Stâd y Faenol osod pibell o'r ffynnon i ochr y ffordd o Ddinorwig i Benllyn er mwyn galluogi i gael dŵr yn ystod tymhorau sych.

Dyma restr o enwau'r bobl a arwyddodd y petisiwn: Robert Owens, Rhos y Bel; Hannah Jane Rowlands, Fachwen Cottage; John J. Roberts, Ty'n y Gate; Griffith Jones, Bryn Saint; Robert M. Roberts, Pen y Clip; John E. Jones, Gallod; Owen J. Jones, Tyddyn Ucha; Richard Jones, Bryn Pistyll; Edward William Edwards, Bryn Ffynnon; John Parry, Ty'n Pwll; David Jones, Bron Ceris; William Jones, Bryn Bela; William Williams, Pan y Bela; Lewis Jones, Craig y Bela; William William Thomas, Fachwen; John John Jones, William Hughes (ni roddir enwau cartref i'r un o'r ddau); Richard Owen Thomas, Bella; David Jones, Bryn Saint; William Jones, Bryn Saint; William Josea Williams (dim enw cartref); Robert E. Roberts, Cae Canol; Robert Jones, Tŷ Capel a John Williams, Tan y Rhiw. Sylwer mai un ferch yn unig a arwyddodd y petisiwn, er mai'r merched druan mae'n siŵr, oedd yn gyfrifol am gario'r holl ddŵr ar gyfer defnydd y tŷ.

Efallai bod rhai o'r darllenwyr â gwybodaeth am rai o'r cymeriadau uchod, ac felly yn medru helpu i ddyddio'r petisiwn. Byddai'n ddiddorol hefyd cael gwybod ble'n hollol roedd y Parc Newydd ac a gafodd trigolion y Fachwen eu dymuniad. Oes rhywun â gwybodaeth ynglŷn â ffynnon yn yr ardal gyda phibell ohoni yn arwain i'r ffordd?

NICYRS A JYRSIS

Yn dilyn yr adroddiad fis diwethaf am hanes rhai o dimau pêl-droed cynnar yr ardal cefais alwad ffôn gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo yn adrodd fel y bu i'w dad fod yn chwarae pêl-droed i dimau Glasgoed Rangers ac Ebenezer yn ei ddydd. Roedd ei dad, Thomas Williams, yn byw ym Mrynrefail ac felly o fewn cyrraedd hawdd i'r ddau dîm lleol. Bu'n reffari hefyd ar ôl rhoi'r gorau i chwarae pêl-droed.

Yn ôl yr hanes, rhoddwyd gwahoddiad i Trefor Hughes, Yswain Plas Glasgoed i gicio'r bêl ar ddechrau gêm gyntaf tîm Penisarwaun. Fe'u plesiyd gymaint gan yr anrhydedd a estynnwyd iddo gan hogiau cyhyrog yr ardal, nes iddo brynu set o ddillad chwarae pêl-droed i'r tîm; enghraifft gynnar o noddi mae'n debyg. Yr adeg honno roedd y dillad chwarae pêl-droed yn cael eu galw yn nicyrs a jyrssis, ac yr oedd cryn ganmol ar set newydd Glasgoed Rangers, sef yr enw a roddwyd ar y tîm er anrhydedd i'w noddwr.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AWW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



AM BRYDAU TSINEAIDD BLASUS I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

Soniodd Eirwyn Williams hefyd am dîm ym mhentref Cwm-y-glo a hynny, mae'n debyg, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ganddo am y tîm ond mai'r *Cwm y Glo Famous Eleven* oedd yr enw arnynt. Gŵr o'r enw Llew Evans oedd un o'u chwaraewyr gorau a thybid iddo chwarae am gyfnod i dîm tref Caernarfon. Beth am gadarnhad o'r straeon uchod?

Y mis diwethaf addawyd rhoi mwy o hanes Cynghrair Genedlaethol Cymru, Adran 3 (Gorllewin) a sefydlwyd yn nhyrnor 1922-23. Roedd Rhyddallt Comrades a Glasgoed Rangers wedi ymuno i ffurfio tîm Llanrug ar gyfer mynediad i'r gynghrair newydd. Penodwyd Llew Evans yn gapten Llanrug (tybed ai'r un chwaraewr ydoedd â'r Llew Evans uchod?) Dyma'r disgrïiad a roddwyd ohono yn y wasg: '... un o'r hanerwyr gorau, nid yn unig yn ei dîm, ond yn yr holl gynghrair. Mae'n hanerwr canol hynod egniol sy'n gwneud gwaith dau ddyn. Yn sicr nid arno ef y bydd y bai os na fydd enw Llanrug yn uchel ar restr tabl y gynghrair ddiwedd y tymor.'

Roedd tîm Ebenezer hefyd wedi eu derbyn i'r gynghrair newydd, a chyfarfu'r ddau dîm yn gynnar yn y tymor. Mae enwau'r tîmau ar gael — Llanrug: O. M. Hughes, Ted Buck, Dick Edwards, William Edwin Williams, Llew Evans, Ifor Williams, Hugh Parry Williams, Trebor Roberts, Evan Jones, Hugh Daniel Williams a William Jones. Rhoddwyd sylw arbennig i William Jones: '... er nad oedd wedi chwarae ers cyfnod, fe welwyd cyffyrddiadau twt ganddo, gan ddefro atgofion o'r dyddiau a fu wrth ei weld unwaith eto yn gwisgo dillad pêl-droed'. Tîm Ebenezer oedd O. Jones Owen, D. Rowlands, Hugh Hughes. A.N.Other (pwy oedd hwnnw tybed?), Maldwyn Roberts, R. G. Williams, J. M. Williams, Wil Davies, Griff Evans, Sam Jones a W. Thomas.

Llanrug fu'n fuddugol o naw gôl i ddim. Does ryfedd fod y pennawd yn y wasg yn honni, 'Ergyd loriol i'r Pabos'. Cyfarfu'r ddau dîm eto ar ddechrau Rhagfyr, y tro hwn yn Neiniolen. Roedd yn gêm fwy clôs, ond Llanrug a orfu eto'r tro hwn, o ddwy gôl i ddim. Y tro hwn rhoir sylw i sefyllfa tîm Ebenezer: 'Gwn fod y Pabos yn sbortsmyn ardderchog, ond methaf a dirnad pam na allant godi tîm pêl-droed o safon. Mae'n bryd iddynt ddarganfod cae newydd, gan fod yr

un presennol mewn cyflwr ofnadwy, a'r llethr yn llawer rhy serth. Efallai y byddai eu chwarae yn gwella ar gae gwastad.'

Ar ddiwedd y tymor, tîmau Tregarth a Llechid o Ddyffryn Ogwen oedd ar frig y gynghrair, gyda Llanberis yn drydydd a Llanrug yn bumed. Roedd Ebenezer druan yn olaf ond un, wedi sgorio llai o goliau nac unrhyw dîm arall — dim ond pymtheg gôl mewn deunaw gêm, ac wedi ildio 62.

Yn y tymor hwn hefyd y brwydrodd Llanrug drwodd i rownd derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru, ond colli fu eu hanes yn erbyn Oakenholt o Sir y Fflint. (Cafwyd hanes y frwydr honno mewn rhifynnau cynnar o'r *Eco*.)

Y mis nesaf, edrych ymlaen am dymor 1923-24. Gyda diolch i Tom Davies, Llanrug am gasglu ffeithiau diddorol am hanes cynnar pêl-droed yn yr ardal. Mae Tom hefyd yn dymuno diolch i Dafydd Evans, Penisarwaun am waith graenus yn cyfieithu llawer o'r adroddiadau i'r Gymraeg. Mae ein diolch ninnau fel darllenwyr i'r ddau ohonoch, a chroeso i unrhyw un arall sydd ag atgofion neu wybodaeth am ddyddiau cynnar pêl-droed yn y fro i gysylltu â mi.

DIRGELWCH O'R ARDD

Tra'n clirio hen wely mefus yn yr ardd cyn y Pasg (do, fe fu'r tywydd yn ddigon tyner am ryw dridiau cyn i'r eira ddod ar ein gwarthaf) deuthum ar draws darn o degan gwyn ac ysgrifen fras mewn llythrennau coch arno. Mae'n ymddangos fel caead crwn, tua modfedd ar draws ac oddeutu modfedd a hanner o ddyfnder. Mae'r ysgifen i'w gweld yn berffaith glir: 'Sterilized: Foreign — Free from Anthrax'.

Oes rhywun yn medru cynnig eglurhad ar beth allasai fod wedi ei gau dan y caead? A pham tybed roedd angen pwysleisio nad oedd Anthrax ynddo? Ai tybed rhyw fath o chwyn-laddwr a ddefnyddid yn yr ardd ers talwm oedd hwn, yntau ryw hylif a ddefnyddid i lanhau yn y tŷ? Fe'i codwyd o ran o'r ardd a oedd yn amlwg ar un cyfnod yn cael ei ddefnyddio fel tomen sbwriel, oherwydd mae darnau o boteli, tegins a chaeadau potiau Bovril yn dod i'r amlwg yn eithaf aml wrth i mi balu. Ond welais i erioed ddim tebyg i hwn o'r blaen, a byddwn yn falch o dderbyn unrhyw fath o eglurhad.

Llamas ar lethrau'r Wyddfa



Ar waethaf gwaharddiad Parc Cenedlaethol Eryri, penderfynodd Cyngor Sir Gwynedd, ddechrau fis Ebrill, nad oedd hawl ganddynt i wahardd gŵr o ardal Dolbenmaen rhag cynnig gwasanaeth cario ymwelwyr i gopa'r Wyddfa gan ddefnyddio llamas. Darllen am yr achos a ysgogodd Margaret W. Roberts o Gaernarfon i anfon llun diddorol a pheth o'r hanes i'r *Eco*. Dywed mai golygfa ddieithr fydd gweld llamas yn troedio'r Wyddfa, ond fod yr anifail yn un eithaf cyffredin i'n cefndryd o Batagonia, oherwydd mai yno, ym mynyddoedd yr Andes y mae ei gynefin. Dofwyd yr anifail dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl gan drigolion y rhan honno o'r byd, a'i ddefnyddio i gario llwythi trymion ar lwybrau cul a charregog y mynydd-dir. Mae'r anifeiliaid hefyd yn cael eu godro, a chig brau y llama beinw yn cael ei fwyta. Defnyddir y croen a'r gwlan i wneud dillad a phlethir y blew hirion i wneud rhaffau.

Ond mae'r llun yn dangos

llama yn y fro hon gryn nifer o flynyddoedd yn ôl. Dyma'r hanes: 'Cofiais i'm modryb a arferai fyw yn y Fachwen, ddweud i ddyinion ddod â llama o gwmpas pentrefi'r cylch i hysbysebu fod syrcaes wedi dod i Lanberis. Tynnodd lun o'r olygfa ryfedd.' Daeth Margaret ar draws y negatif a datgelu'r llun hwn. O'i astudio'n fanwl gwelir mai ar lan Llyn Padarn, rhywle yng nghyffiniau'r ddôl yn Llanberis, y tynnwyd y llun. Mae copa'r Elidir i'w weld yn y cefndir a rhan o Chwarel Vivian. Gellir gweld diwedd y gair 'Circus' ar boster yn hongian dros gefn y llama. Mae rhan o air arall i'w weld hefyd, '... man'. Tybed ai syrcaes 'Sherman' ydoedd? Efallai fod rhai o'r darllenwyr yn cofio'r achlysur neu'n gallu dyddio'r llun oddi wrth y lori sydd y tu ôl i'r dynion.

Anfonwch eich sylwadau ar unrhyw agwedd o hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: (01286) 763515.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

**L.M.F. (Rhan 3)
gan Y GWALCH**

Erbyn hynny roedd Norman wedi dod yn gymaint o ffefryn hefo Sergeant Brace nes yr oedd hwnnw yn caniatáu iddo fynd i weithio hefo Bert Grimes i'r maes awyr yn rheolaidd. Ond roedd y ffaith fod yr hogyn du wedi'i ddal yn ceisio dianc wedi arafu tipyn ar ei awydd i wneud yr un peth.

Un canol prynhawn tanbaid, pan oedd y Typhoons newydd ddychwelyd o gyrch, a'r peilotiaid prin wedi dod o'u *cockpits* daeth VI drosodd yn isel. Sylwodd Bert ar ei union bod yna ryw ddiffyg arni a phan waeddodd ar Norman fe sylweddolodd hwnnw bod ei pheiriant wedi diffodd. Taflood y ddau eu hunain ar lawr a'r funud honno daeth ffrwydrad uffernol. Y cwbl a welai Norman oedd darnau o facadam ac awyrennau yn hedfan i bob cyfeiriad. Yn ffodus ni chafodd yr un o'r ddau ond ysgytfa, ond nid felly pawb. Clywsant weiddi a griddfan o'u cwmpas a phan godasant gwelsant alanas ar y maes; amryw yn dal i orwedd, rhai yn gwingo ac eraill yn ddiymadferth. Mewn munudau roedd tair ambiwlans wedi cyrraedd i gario'r clwyfedig i gael ymgeledd, a gorchuddiwyd y meirwon â charthenni.

Doedd McDermot ddim yno a oedd yn rhyfeddod; yn ei le roedd rhingyll arall a oedd yn gweiddi gorchmynion trwy uchel-seinydd i aelodau o'r Awyrlu a oedd yn ddianaf i ffurfio rheng ar un ochr a gweithwyr y dydd oddi allan i gasglu mewn man arall. Ond drwodd a thro roedd hi'n ymylu ar draed moch. Ond cyn gynted y sylweddolodd Bert Grimes beth oedd yn digwydd, dywedodd yn sydyn wrth Norman, 'Rŵan mae dy gyfla di. Tyrd efo fi y tu ôl i'r cwt yma, a phaid â dadlau.'

Doedd gan Norman fawr o syniad beth oedd ym mhen y dyn, ond ar ôl ei ddilyn i gysgod y cwt, meddai Bert wedyn, 'Tyn y gôt 'na yn reit sydyn a dy dei a rhoi nhw o'r golwg o dan y plancia 'na.' Tra'n dweud hynny roedd o'n diosg ei *overalls*. 'Yli, sodra rhain amdanat a botyma nhw reit i fynu a rhwbia tipyn o fawr ar dy wyneb. Mi fedri di sleifio ar y bws efo ni.'

Wedi i Norman ddeall ei amcan ni fu fawr o dro yn ufuddhau, ac wedi iddynt ddod i'r amlwg wedyn fuasai neb ar un cip yn gallu gweld dim o'i le, a phrin mewn pryd yr

oeddent. Ar hynny roedd y rhingyll yn cyhoeddi y byddai'r bws yn cyrchu gweithwyr sifil y dydd ar fyrder. Gyda hynny dechreuodd weiddi ar y rheng arall a cherddasant i ffwrdd. Ond cyn i'r bws gyrraedd cafodd Bert gyfle i sisial un neu ddau o gynghorion i Norman.

'Paid ag aros ar hwn nes y bydd o ym mhen ei daith rhag tynnu sylw, a phaid â dod yn agos i mi. Paid, chwaith, â bod allan yn rhy gynnar yn y bora nag yn rhy hwyr y nos.'

Gyda hynny daeth y bws ond roedd gyrrwr hwnnw'n fwy pryderus am ei ddiadell na'r rhingyll. Roedd arno eisiau gwybod faint o deithwyr rheolaidd oedd wedi eu lladd neu eu hanafu. Doedd neb yn sicr, ac wedi aros am gyfnod a fu'n artaith i Norman, bu'n rhaid iddo fodloni ar y wybodaeth oedd ganddo a mynd.

Hyd hynny roedd Norman wedi synnu na fyddai un o'r capiau gwynion wedi ymddangos, a bendithiodd ei ffawd; hynny ydi hyd nes yr arafodd y bws wrth y *guardroom* ger y giât fawr, a daeth un o'r bodolion rheiny allan gan sefyll ar y step. Aeth i drafodaeth â'r gyrrwr tra yr un pryd yn tremio ar hyd a lled y cerbyn a'i gynnwys, ac o'r hyn a ddeallai Norman roedd yn awyddus i gael gwybod faint o deithwyr y bore oedd yn fyr. Wedi iddo gael ei foddhau diflannodd ac aeth y cerbyd yn ei flaen yn chwim gan ollwng dynion yma ac acw ar ei daith, ac yn eu mysg Bert Grimes a oedd yn amlwg yn ddigon parod i gael ei amddifadu o bar o *overalls* er mwyn y ffoadur.

Roedd cydymaith Norman yn ei sedd yn un siaradus iawn fodd bynnag, o ganlyniad i'r braw a gafodd efallai, a dechreuodd fod yn chwilfrydig gan awgrymu nad oedd wedi sylwi ar Norman ar y bws erioed o'r blaen.

'Heddiw roeddwn i'n dechrau,' meddai hwnnw.

'O, gobeithio y cei di well lwc 'fory,' a chyda hynny cododd i ymadael er mawr ryddhad i'r llanc.

Roedd y bws yn raddol wagio, a phenderfynodd Norman o'r diwedd fynd allan ei hun pan oeddent yn cyrraedd cyrion Sittingbourne. Dewisodd gyfle pan oedd dau arall yn disgyn o'r bws, rhag bod yn amlwg.

'Hwre!' meddai'r gyrrwr wrthynt heb ddangos fod dim yn anghyffredin yn y sefyllfa.

Roedd hi'n hirddydd haf ac yn boeth, ac yn ystod y pedair awr nesaf daeth Norman i adnabod strydoedd

Sittingbourne yn bur dda. Roedd yna un neu ddau o dai bwyta ar gael, ond serch ei fod erbyn hynny yn llwglyd, osgodd y rheiny a'r tafarnau, a cheisiodd gael pen-llinyn ar y ffordd i Lundain heb holi gormod, gan ei fod yn credu mai ymgolli yn nhorfeydd y ddinas honno fyddai orau iddo, dros dro beth bynnag, ond penderfynodd beidio ag amlygu ei hun ar y ffordd fawr y noson honno. Yn hytrach chwiliodd am le i roi ei ben i lawr tan y bore. Roedd ei waled ganddo o hyd ac ychydig o bres ar gyfer argyfwng, ond ni feiddiai fynd i westy. Fel yr oedd, yn dal i wisgo *overalls* Bert, roedd o'n rhoi'r argraff i'r mwyafrif mai ar ei ffordd i'w waith yr oedd.

Yn y diwedd digwyddodd fynd heibio iard lle roedd tua dwsin o fysiau'n cael eu cadw; rhai fel yr union un a ddaeth â fo yno i gychwyn. Aeth o'r neilltu nes daeth y gwyll ac aeth i mewn i un o'r cerbydau a gollwng ei hun i lawr ar y sedd ôl, ond yr oedd cwsgr ymhell oddi wrtho, a dechreuodd feddwl o ddifrif am ei sefyllfa a oedd wedi ei thafllu iddi mor sydyn ac annisgwyl. Beth oedd wedi digwydd yn y gwersyll ers y ffrwydrad? Mae'n sicr eu bod wedi darganfod ei golli erbyn hynny. Oedden nhw'n meddwl tybed ei fod wedi'i chwythu yn sgyrion? Neu a oedd rhywun wedi dod o hyd i'w gôt o dan y planciau? A oedd o wedi llusgo Bert Grimes i drybini i'w ganlyn?

A chaniatáu ei fod o'n gallu cyrraedd Llundain, beth wedyn? Ac i ble? Nid i Newcastle yn siŵr, na 'chwaith i'r Alban i gartref Jean McFarlane, ger Loch Fyne. Doedd o erioed wedi cyfarfod ei theulu. A

beth am y ferch ei hun? Roedd o wedi sgrifennu o'r gwersyll ond ddaeth yna ddim atebiad. A oedd hi dan sen gan enethod Ludford Magna am ei bod yn rhannu ei warthnod? Cyn iddo gysgu roedd cân di-derfyn Canada yn mynd gylch-ogylch ei ben, 'It's the same the whole world over / It's the poor that get the blame . . .'

Llais uwch ei ben yn gofyn beth gythral oedd o yn ei wneud yn y fan honno a'i deffrodd am tua chwech o'r gloch y bore. Gyrrwr y bws oedd yno a diflasdod y bore cynnar yn ei sŵn.

Roedd o'n gwestiwn anodd ei ateb o hanner cwsgr mor fore, ond doedd Norman yn ddim os nad yn ddyfeisgar.

'Mi rydw i wedi cael fy momio allan yn Hastings,' meddai, 'a fy ngadael efo dim ond beth sydd gen i amdanaf. Mae gen i deulu yn Llundain. Mi rydw i'n trio mynd atyn nhw, os ydyn nhw'n fyw.'

Meiriolodd y dyn ar hynny gan fodloni ar yr hanner gwir.

'Os byddi di reit sydyn, mae 'na gerbyd yn mynd i Maidstone rŵan. Mae hwnnw ar dy daith di. Yli, mddof i hefo ti i egluro i'r gyrrwr rhag ofn iddo gael y syniad anghywir. Mae 'na helfa ar dro am rai sydd wedi dianc o RAF Sheppey ddoe. Rŵan, ar ei hôl hi os wyt ti am fynd.'


Roedd Norman ar ei draed mewn munud ac yn gywir i'w air daeth y dyn i'w ganlyn at gerbyd Maidstone a rhoddodd eglurhad hirwyntog i yrrwr hwnnw, ac ar hynny roeddent ar eu taith trwy gefn gwald Kent, gan adael Norman yn dyfalu faint ychwaneg oedd wedi manteisio ar ffrwydrad y VI i fynd dros y weiren.

**EMYR
JONES**

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

**CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066**



AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

LLEISIAU LLIWEDD. Ar 4 Chwefror bu'r Parti yn diddori yng Nghanolfan Dinorwig. Ar 24 Mawrth yn Disgwylfa, Gaerwen gyda Merched y Wawr. Ar 12 Ebrill yn Smyrna, Llangefni gyda Merched y Wawr. Ar 23 Mawrth a'r 4 Ebrill yng Ngwesty Fictoria yn diddori'r ymwelwyr. Cafwyd croeso mawr ym mhob canolfan.

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Nhŷ'r Curad, nos lau, 1 Ebrill. Arweiniwyd mewn gweddi gan Mrs Moreen Lennon a chroesawyd yr aelodau a'r gŵr gwadd, Mr Stanley Owen, gan y cadeirydd Mrs Ann Parry-Jones. Cafwyd sgwrs ddi-ddorol ac amserol iawn i'r Wythnos Sanctaidd gan Mr Owen a dilynwyd gyda thrafodaeth frwd wedi gweld sleid o hen Eglwys St. paeris ac amheuaeth o ddilysrwydd lleoliad y llun. Mrs Betty Humphreys a Mrs Katie Williams oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl y mis yma, gyda Mrs Margaret Griffiths yn lwcus. Diolchwyd iddynt ac i Mr Owen yn gynnes gan y Parchg Gwynfor Williams.

CAPEL JERUSALEM. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gyfeillach, ddydd Mawrth, 6 Ebrill, o dan lywyddiaeth Hugh R. Jones. Cafwyd sgwrs ddi-ddorol gan Mr Robert Thomas ar ein hynafiaid Celtaidd. Cafwyd trafodaeth i ddilyn gyda lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 4 Mai a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

UNDEB Y MAMAU. Prynghawn dydd Mawrth, 13 Ebrill, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn Nhŷ'r Curad. Y Rheithor, y Parchg Philip Hughes arweiniodd y gweddiâu a'r gwasanaeth. Estynnwyd gweddiâu gyda'r aelodau sy'n wael yn eu cartrefi a chofiwyd hefyd yn ein gweddiâu am y ffoaduriaid yn Kosovo. Y swyddogion a etholwyd am y flwyddyn nesaf yw — ysgrifennydd aelodaeth: Mrs Betty Humphreys; trysoryddes: Mrs Nan Owen; ysgrifenyddes: Mrs Audrey Evans. Paratowyd rhaglen ddi-ddorol iawn ar gyfer y misoedd nesaf a gwnaed trefniadau ynglŷn ag ymweliad y Fonesig Eames (Llywydd Byd Undeb y Mamau) ym mis Mai.

Diolchwyd i Mrs Betty Humphreys a Mrs Bet Hughes am y baned gan Mrs Nan Owen ac eiliwyd y diolch gan Mrs Hilda Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Nan Owen. Diweddwyd y cyfarfod trwy weddi.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Nos lau, 25 Mawrth, roedd hi'n ffrainc cael rhannu llwyfan gyda chôr arbennig iawn o Albuquerque, UDA, a mwynhawyd y noson yn fawr iawn ac roedd yn hyfryd eu clywed yn canu mewn gwahanol ieithoedd gan gynnwys y Gymreg.

Dydd Sadwrn, 3 Ebrill, mewn gwasanaeth 'Bendithio Priodas' yn yr Eglwys, bendithiwyd Dafydd Bullock a Uerike Wiedenbach, roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Philip Hughes. Mae gan Dafydd gysylltiad agos a'r ardal a braint oedd cael canu un o'i gyfansoddiadau yn y gwasanaeth arbennig hwn. Dymunwn yn dda i'r ddau.

Nos Wener, 16 Ebrill, roedd y Côr yn cynnal Noson Lawen yn Rhosgadfan a chawsom groeso arbennig iawn ganddynt ac edrychwn ymlaen am gael mynd yno eto.

Nos Sul, 18 Ebrill, roedd y Côr yn cymryd rhan mewn Cymanfa Ganu ym Mhenisarwaun dan arweiniad Mrs Mair Huws a chymerwyd rhan hefyd gan John Eifion Jones.

Nos Wener, 30 Ebrill, bydd y Côr yn cynnal Noson Lawen ym Mae Colwyn.

Cydymdeimlwn â Mr Idwal Williams, Cwm-y-glo ar golli ei frawd, Ian, yn Lerpwl.

Dymunwn yn dda i Mr Cyril Jones, Newton ar ei ymdeoliad. Bu'n gweithio fel Warden i'r Parc Cenedlaethol am dros ugain mlynedd. Pob bendith Cyril a gobeithio y cei iechyd a 'thywydd braf' i fwynhau a cherdded yr hen fynnyddoedd annwyl yma.

G. LEWIS

DIOLCH. Dymuna Nesta Roberts, 12 Stryd Newton ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod gartref. Diolch i staff wardiau Glaslyn, Glyder a Tudno am eu gofal a'u caredigrwydd ac i feddygon a nyrsus Meddygfa Llanberis.

DIOLCH cynnes iawn oddi wrth deulu y ddiweddar annwyl Anti Mari,

sef Mrs Marie Pritchard, am bob caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl gan bawb o'i chydabod. Diolcha Betty am y rhoddion, cardiau a'r ymweliadau a diolch arbennig i'r Matron a staff Plas Pengwaith am eu gofal tynner tuag ati trwy gydol ei arhosiad yn y cartref. Diolch i'r meddygon Williams, Roberts a Jones, Waunfawr am eu gofal arbennig. Diolchir hefyd i'r Parchedigion Dafydd Hughes a John Pritchard am eu hymweliadau a'r gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch i Danny a Nerys, Bistro, Llanberis am drefnu te'r angladd ac i E. W. Pritchard a'i Fab am eu trefniadau trylwyr. Troslwyddir y rhoddion a dderbyniwyd i Blas Pengwaith a Meddygfa Waunfawr.

Dymuna Elizabeth (Bet), Fron Goch, Llanberis ddiolch o galon am yr holl gadau, galwadau ffôn a phersonol ac am yr arian at Hospis yn y Cartref ac Ymchwil y Cancr. Diolch arbennig i'r Meddyg Robin Parry a'r gweinyddesau Mair Griffiths a Gillian a gweinyddesau yr Hospis a fu'n gofalu am Peredur yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd i'w deulu i gyd yn Llanberis a'm ffrindiau a fu yn gymorth mawr i mi. **PLAS PENGWAITH.** Bydd dathlu pen-blwydd yn ystod mis Mehefin i Mrs Elisabeth Williams, Mrs Mair Williams, Mrs Peggy Jones a Mrs Bessie Owen. Dymunwn pen-blwydd hapus iawn i'r pedwar ohonoch oddi wrth bawb yn y Cartref a gobeithio y gwnewch fwynhau eich diwrnod.

Daeth Mr T. Williams o Lanrug atom a chroesawn ef yn gynnes atom.

Dathlwyd y Pasg gyda cinio bendigedig yn y lolfa fawr a'r holl drigolion gyda'i gilydd. Dydd Llun y Pasg daeth Ms Haf Morris a Mr a Mrs B. Thomas i'n diddori yn y lolfa ac fe fwynhaodd pawb y prynghawn. Diolch yn fawr i Haf a Mr a Mrs Thomas am roi o'u hamser. Cafodd pawb wy Pasg yn anrheg. Diolch i'r staff am weithio mor galed dros y Pasg.

Ymdeol o'i gwaith y mae Ms Foulkes a dymunwn pob hapusrwydd a gwellhad buan iddi. Bu'n gweithio yn y cartref ers nifer o flynyddoedd ac wedi gweld tipyn o newidiadau yn y lle.

Llongyfarchiadau i Lorraine Yvonne ar ei phenodiad i'w swydd newydd yn y cartref.

Mae Mrs D. M. Jones yn Ysbyty Gwynedd ac mae pawb yma yn anfon ein cofion cynnes ati gan

ddymuno iddi gael gwellhad buan i ddod yn ôl atom.

Dymuna pawb yn y Cartref estyn ein cydymdeimlad i deulu Mrs F. Ellis, Llanrug a fu farw yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CAPEL COCH. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun brynghawn Sul, Ebrill 18.

YR URDD. Llongyfarchiadau i aelodau côr yr adran a enillodd gystadleuaeth y Côr Adran Bentref yn yr Eisteddfod Sir a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Sadwrn, Mawrth 27. Y cam nesaf fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan ddechrau mis Mehefin. Pob hwyl i'r plant yn y fan honno.

YR AELWYD. Nos Fercher, Ebrill 14 bu aelodau'r Aelwyd yn brysor ynglŷn ag Apêl Kosovo. Aed o gwmpas y pentref yn dosbarthu llythyrau o ddrws i ddrws. Diolch i'r criw am eu help a'u cefnogaeth i'r ymdrech yn y pentref i anfon cymorth i'r ffoaduriaid trwy'r elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Theatr Fach Gorffwysfa nos Wener, Ebrill 16. Cafwyd anerchiadau gan yr Aelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley a chan y Cynghorydd Eurig Wyn, ymgeiswyr Plaid Cymru yn Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ar Fai 6 a'r Etholiad Ewropeaidd ym mis Mehefin.

EISTEDDFOD. Cynhelir Eisteddfod Llanberis yn festri Capel Coch brynghawn a nos Sadwrn, Mai 15.

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

(Parhad o'r dudalen flaen)

arweinydd cyngherddau gyda'r Band. Roedd ei frwdfrydedd dros gystadleuaeth y parti canu yn Eisteddfod y pentref, a phrofodd y partion dawnsio gwerin beth o'i ddawn(!) yn y maes hwnnw hefyd.

I gannoedd o rieni a phlant ledled Gwynedd fe'i hadnabyddid fel Gwyndaf Rôd Sefti ac yn rhinwedd ei swydd ymwelodd â degau o ysgolion yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd. Yn ddiweddarach gweithiodd ym maes gwasanaeth lles yr Awdurod Addysg cyn ymuno â'r adran Atal Troseddu ar y cyd rhwng y Cyngor Sir a'r Heddlu. Ei brofiadau yn y meysydd hyn a fu'n gyfrifol am iddo fod yn un o sylfaenwyr GISDA yng Nghaernarfon, y corff sy'n weithgar gyda'r ifanc di-gartref. Yn yr un modd bu'n ysgrifenydd mudiad Cefnogaeth i Ddiodefwyr yn sgil tor-cyfraith.

Dros y blynyddoedd diwethaf rhoes lawer o'i egni i ymgyrchu dros Ganolfan Gymdeithasol yn Llanrug. Tridiau wedi ei farwolaeth cynamserol daeth y newyddion fod cais y Sefydliad Coffa am grant i adnewyddu'r adeilad wedi bod yn llwyddiannus. Trist meddwl na fydd Gwyndaf gyda ni i dderbyn y newyddion da ond dylai ei weithgarwch diflino dros yr achos fod yn ysbrydoliaeth i weddill trigolion Llanrug i gynorthwyo gyda'r gwaith sy'n parhau i'w gyflawni ynglŷn â'r ymgyrch codi arian. Mae'n arwyddocaol fod y teulu wedi penderfynu derbyn rhoddion er cof am Gwyndaf tuag at gronfa'r Ganolfan. Bydd gwireddu'r freuddwyd yn goffa teilwng o un a wnaeth gymaint i fywyd cymdeithasol y pentref.

Prin y gall rhywun ddychmygu fod ganddo amser yn weddill i ddilyn unrhyw hobïau, ond yr oedd yn durniwr coed heb ei ail, a'r garej yng Nglanffynnon wedi'i throï'n weithdy. Aeth llawer o'i waith turnio cywain yn anrhegion i wahanol ffeiriau codi arian a nosweithiau coffi.

Roedd yn deithiwr wrth natur,

p'run ai ar droed, mewn car neu daith bws. Cerddodd lwybrau'r fro a chrwydro llechweddau'r mynyddoedd. Roedd yn gwmniwr diddan ac yn llawn hiwmor difalais. Byddai wrth ei fodd yn dreifio car — i ba le bynnag, ond roedd hefyd yn mwynhau gwyliau hamddenol ar deithiau bws — yn enwedig i'r Cyfandir, ac Awstria yn arbennig. Oherwydd ei amryfal gysylltiadau roedd yn adnabod rhywun, neu rhywun yn ei adnabod o, ble bynnag yr ai.

Mewn oes pan fo pobol-drwsnesa yn ddiethriaid i amryw aeth gwir ystyr cymydog ar ddifancoll wrth i wead cymdogaeth ddadelfennu. Gwyndaf oedd un o'r ychydig bobol brin hynny a frwydrai'n ddiflino, nid yn unig i gadw brodwaith cymdeithas rhag datod, ond i gynnal a thrwsio'r gwedd hwnnw. Roedd yn gymydog yn yr hen ystyr: yn aelod gwasanaethgar o'i gwmwd. Ond roedd cwmwd Gwyndaf yn ymestyn y tu hwnt i Lanrug ac Arfon. Cyffyrddodd â bywydau pobl yn Ngwynedd, Cymru a thu hwnt. Dyn pobol oedd Gwyndaf a chymydog o'r iawn ryw. Os bychan ydoedd o gorffolaeth roedd ei barodrwydd i ysgwyddo'r baich yn ddarhebol.

Bydd gwagle ar ei ôl ym mywyd Llanrug, ond nid hanner cymaint â'r gagendor ar yr aelwyd yng Nglanffynnon. Ni all geiriau ar bapur gyfleu'r golled i fywyd yr ardal. Ni all geiriau 'chwaith gyfleu'r cydymdeimlad tuag at Eileen; tuag at Derfel, Delyth, Siân a'u teuluoedd; tuag at ei fam a'i frawd, Arthur, a gweddill y teulu.

Braint oedd cael adnabod Gwyndaf; cael cydgerdded rhan o'r ffordd yn ei gwmni, a chyfrif fy hun yn ffrind ganddo.

Hwyl, Jôs.



YSGOL BRYNREFAIL

Dosbarthiadau Meistroli Mathemateg Prifysgol Bangor

Cynhaliwyd y dosbarthiadau ar ddydd Sadwrn i ddisgyblion blwyddyn 9. Y disgyblion oedd yn cael eu dewis oedd y rhai sy'n dangos gwir ddiddordeb a gallu yn y pwnc.

Y rheswm pennaf am fynychu'r dosbarthiadau oedd i gael gwell dealltwriaeth ac i ddysgu sgiliau newydd, sydd yn amhosibl eu dysgu yn yr Ysgol, e.e. defnyddio cyfrifanellau graffeg a gwneud geometreg sfferigol.

Yn ystod y pum sesiwn a gawsom, dysgais lawer am wahanol agweddau Mathemategol a bod llawer mwy i'r

pwnc na'r hyn sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Dysgais hefyd am gemau gydag ychydig o fathemateg ynddynt ac mae rhai o'r sgiliau yma wedi fy ngalluogi i ennill ceiniog neu ddwy!

Ar ddiwedd y sesiwnau cyflwynwyd tystysgrif i bawb gymerodd ran ac fe wnes i a Joe Hill fwynhau'r cyfle a'r mathemateg newydd a diddorol, ac hefyd wrth gwrs gwneud ffrindiau o ysgolion eraill. Edrychaf ymlaen i ddarganfod mwy o fathemateg yn y dyfodol.

IWAN WILLIAMS 9E

Diolch

Dymuna Mrs Eirwen Williams ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion, ymweliad a'r holl ddymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddi ddychwelyd gartref.

Enillwyr y Clwb 100

Mis Ionawr: 1, C. J. Roberts, Bethel; 2, Nan Humphreys, Llanrug; 3, Merlynn Shelley, Fachwen.

Mis Chwefror: 1, H. W. Sutherland, Deiniolen; 2, Selwyn Lloyd, Llanrug; 3, E. C. Baylis, Nant Peris.

Mis Mawrth: 1, Sioned, Jones, Cwm-y-glo; 2, R. & D. O. Evans, Llanrug; 3, Elin Dafydd, Llanrug.

Diolch

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i rieni a ffrindiau am eich haelioni yn anfon 'Vouchers Tesco' i ni. Rydym yn gobeithio cael offer cyfrifiadurol gwerth chweil i'r llyfrgell fel bod y plant i gyd yn elwa ohono. Rydym yn ffodus iawn i gael eich cefnogaeth hael bob amser.

Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Gair o ddiolch gan fyfyrwr GNVQ

Fel rhan o'r cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GNVQ, aethom i ymweld â Chyngor yr Henoed yng Nghaernarfon, ddydd Gwener, 16 Ebrill.

Cawsom lawer o wybodaeth am y gwaith da sy'n cael ei gwneud ac rydym yn ddiolchgar iawn i Mr John Clifford Jones a Mr Robin Jones a roddodd o'u hamser i'n tywys o gwmpas a chodi ein ymwybyddiaeth o'r gwaith pwysig yma.

Yn sicr hoffem ddiolch iddynt yn fawr iawn a bydd y wybodaeth gawsom yn ddefnyddiol iawn i'n cwrs.

DRAENOG

Codi'n gynnar yn y bore **glas** wnaeth un gweithiwr coler **las** o Lanberis yn ddiweddar. Roedd yn fore braf o wanwyn a'r caeau'n **las** wrth iddo yrru tua'r ffatri yng Nghaernarfon, i weithio am ei arian **gleision**. Wedi cyrraedd yno methai'n lân â deall pam fod y **glas**lanciau yn gwenu wrth ei weld. Ond wedi edrych yn y **glass** cafodd fraw o weld lliw ei wyneb. Wrth gwneud ei orau **glas** i gyrraedd y gwaith mewn pryd, roedd wedi rhuthro gommod wrth folchi. Nid sebon ddefnyddiodd o, ond un o'r blociau hynny a ddefnyddir i gael ogle da mewn toilet! Ddeuda i ddim pa liw oedd wyneb a dwylo'r creadur bach. Ond roedd angen Doctor Dŵr go dda i'w folchi'n lân.

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: 870753 neu 660118

Symudol: 0498 636559

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

Brynrefs . . . ar parêd yn Fflorida

Tydi edrych ar luniau gwyliau pobl eraill ddim yn hwyl fel arfer, ond tra gwahanol yw gwyliau yn Florida. Mae pawb yn yr Ysgol yn holi sut oedd pethau wedi mynd a lle mae'r lluniau.

Mae pecynnau o luniau yn ymddangos bob dydd a hwyl fawr wrth adrodd rhai o'r straeon. Mae'r plant yn dweud perlau ac mae'n amlwg iddynt fwynhau eu hunain.

Sylwadau'r Plant

GWYLIAU anhygoel, gweld syrcau heb ei hail a theithio mewn 'limousine' yng nghwmni rhai o enethod mwyaf golygus y byd! Braff hefyd oedd treulio wythnos gyda ffrindiau hen a newydd.

MARCUS ORLIK

PETH braff oedd cael mynd i'r ysgol i gyfarfod plant o America. Gwneud ffrindiau newydd a chysnewid anrhegion. Parciau di-ri, rhai gwylb a rhai sych, a sbort ym mhobman.

Wna i byth anghofio'r hwyl hefo fy ffrindiau yn Florida!

CERI DAVIES



Wes, y gyrrwr bws, yn barod am swper efo ni.

BLIZZARD BEACH a'r holl ddŵr! Cymeriadau Disney ym mhobman, ac wrth gwrs gwneud ffrindiau efo'r gyrrwr bws. Ei enw oedd Wes ac roedd o'n gadael i mi bwysu'r botwm i gael chwarae'r tapiau. Rhaid i mi beidio anghofio cynrychiolydd Disney ei hun, sef Tim oedd yn râl cymer ac yn gofalu amdanom i gyd.

HAYDN JONES

BLIZZARD BEACH — y lle i fynd. Parc dŵr heb ei ail. Hwyl a sbri drwy'r wythnos ac yn barod wedi clywed gan un o blant Martland. Diolch yn fawr i'r athrawon a staff y Daily Post a wnaeth y trip bythgofiadwy yma i Florida mor llwyddiannus.

CERI JONES

RHAID i mi sôn am y 'limos' a'n cludodd ni i Planet Hollywood am fwyd. Welais i rioed 'moi fath. Tom Hanks o bawb wedi teithio yn ein limo ni! Pawb yn ei ddillad smart ac yn teimlo'n bwysig iawn. Aros wrth oleuadau traffig a'r temtasiwn i chwifio dwylo ar y bobl yn y bws yn ormod — a rheini yn rhythu arnom — meddwl ein bod yn 'rhywun'. Teimlad braff o fod yn bwysig am rai oriau.

KEITH WILLIAMS

GLANIO yn Florida a'r tymheredd yn eithriadol o boeth. Cyrraedd y gwesty gwych ac ymlacio. Saith diwrnod bythgofiadwy ond mae un diwrnod yn aros yn fy nghof yn fwy na'r lleill. Pa ddiwrnod? Y diwrnod yr aethom i ymweld â'r ysgol. Cwrdd plant tywyll eu croen a gwneud ffrindiau gyda hwy. Ysgol cwbl wahanol i'n hysgol ni. Yna mynd i weld gêm pêl-fas ac eistedd yng nghanol cynnwrf y dorf.

URIEN DEINIOL



Marcus Orlik efo rhai o ddisgyblion yr ysgol y buom yn ymweld â hi.

ATGOF ATHRAWES — o'r trefnu i'r daith!

'Mhell bell yn ôl yn ogofau cof, gwelaf ryw siapiau lled-gyfarwydd, crynion. Mewn bwndel aflêr yng nghornel fy ystafell ddosbarth gorwedd yr unig wir atgof o'r ymgyrch lafurus, faith — casglu'r tocynnau'r llygoden hynod er mwyn ceisio ennill gwyliau ffantastig ym Myd Disney, Fflorida.

Yn ôl ym mis Tachwedd y llynedd, go brin y byddai unrhyw un wedi meddwl y byddai'r twmpath papurau sydd yn prysur grino yn fy ystafell yn troi'n 'docynnau' ar gyfer gwyliau rhagorol. Ond, gwirededwyd pob breuddwyd pan gyhoeddwyd Ysgol Brynrefail yn fuddugol gyda chyfanswm o bron i chwarter miliwn o docynnau Mickey.

Yn dilyn y fuddugoliaeth gwibiodd yr amser a'r trefniadau heibio'n un niwl cymysglyd, ond ar doriad gwawr Mwrth 30ain eleni daeth y ffantasi'n ffaith — roeddem ni'n mynd!

Ni ddwedaf ei bod yn bosib hoelio sylw ar un agwedd gofiadwy yn y gwyliau. Roedd y cyfan yn brofiad a fydd yn aros yn y cof am oes, i staff a disgyblion ein ysgol. Ond, os bydd un peth yn llwyddo, hwnnw fydd

cymeriad a phersonoliaeth ein disgyblion. Roedd eu brwdfrydedd a'u hymddygiad yn benigamp trwy gydol y gwyliau ac yn gwneud ein 'gwaith' yn rhwydd tu hwnt. Pleser oedd cael treulio wythnos yn eu cwmni.

A ninnau bellach yn ôl yn oerni Eryri, mae'r wên ar wefusau 'Dosbarth '99' yn parhau. Y cam nesaf, wrth gwrs, fydd trefnu'r ymgyrch nesaf i weld os cawn fynd a chriw arall i Wlad yr Addewid yn y flwyddyn 2000!

I. W. ROBERTS



Y Prifathro a Minnie Mouse.

TWILIGHT ZONE — Tower of Terror. Cwio am ryw ugain munud hefo'r criw. Cyrraedd y lifft a phawb yn nerfus. Eistedd, a daeth y bar diogelwch i lawr. Ei wasgu'n dynn. Y lifft yn fflio i fyny. Y drysau'n agor a minnau'n gweld dros Disney World cyfan ac yna . . . ah! ah! ah! yr holl ffordd i lawr — 13 llawr ac i fyny'n ôl, ac i lawr eto. Dod yn ôl i'r ddaear ac eisiau mynd arno eto, ac eto, ac eto!

SIMON CHÉNG

MAE'N wir dweud nad oes yr un reid na all eich cyffroi mewn rhyw ffordd — boed yn codi ofn arnoch neu yn gwneud i chi rowlio chwerthin.

DELYTH MORRIS

CAFWYD ambell berl gan yr athrawon. Beth am Mr Eifion Jones wedi gwirioni'n lân am fod Minnie Mouse wedi cistedd ar ei lin. A choeliwch neu beidio cafodd Mrs Metcalfe alwad ar y ffôn yn y 'limo' gan James Bond (ein bôs) ac heb droi blewyn, dywedodd wrth y gyrrwr mai galwad iddo ef ydoedd!


Ni fydd Mr Elfyn Roberts byth 'run fath ar ôl bod ar Space Mountain hefo Mrs Beryl Jones. Gwefreiddiol ddwedoch chi!

Cafodd Mr Holland ei drin fel brenin, a mwynhau pob munud ohono, ac ni wnaiff byth anghofio wynebâu'r plant pan oeddent yn cael \$20 y dydd o arian poced. Tra roedd Mrs Yvonne Roberts wedi cael modd i fyw wrth fynd ar Space Mountain a'r Tower of Terror a chael y cyfle i nofio bob dydd.

Y tywydd poeth oedd wrth fodd Miss Ruth Davies roedd hi'n falch o weld yr haf!

Wrth gwrs, cafodd pawb fwynhad mawr o weld 'plant ein hysgol ni' yn cymryd rhan yn y parêd ac roedd goleuadau'r Spectromagic yn wych tra roedd y Fantasmic yn fôr o liwiau, tân gwyllt a lasers. Golygfa heb ei hail.

Mawr yw ein diolch i'r plant am eu hymddygiad penigamp ac i griw y *Daily Post* am wneud yr holl drefniadau. Roedd popeth wedi ei drefnu mor ofalus fel bod pawb wedi ymlacio'n llwyr o wybod bod popeth mewn dwylo mor fedrus.



Mr Holland cyn iddo fentro ar y Summit Plummit (sydd i'w gweld y tu ôl iddo)

POB diwrnod yn wych, ond cael bod yn rhan o'r parêd yn anhygoel. Teithio mewn car y chwe degau i lawr y ffordd yn MGM a Mickey ei hun wrth fy ochr! Dyna beth oedd profiad bythgofiadwy.

GWENLLI PUGH

WEDI misoedd o edrych ymlaen fe ddaeth y diwrnod mawr. Mynd i'r ysgol am 5 y bore! Teithio am bymtheg awr a chyrraedd yr UDA. Haul! a mwynhau pob diwrnod yn enwedig MGM a chyfeillgarwch staff y *Daily Post* a'r athrawon.

BETHAN ROBERTS

BREUDDWYD yn dod yn wir gan fy mod yn hoffi actio — beth gwell na theithio i Planet Hollywood mewn limusine. Y tu mewn yn foethus — seddau lleidr, ffôn, poteli dŵr, coke, sprite a dau deledu. Pawb yn syllu arnom, wyth 'limo' yn un ribidires! Cyrraedd Planet Hollywood a theimlo fel seren go-iawn. Cael ein arwain i fyny'r grisiau — heibio pawb arall — i'n llefydd 'reserved'. Gweld dillad a wisgodd Kate Winslet a Leonardo Di Caprio yn y ffilm Titanic.

FFION WILLIAMS

GOSOD carreg 'Dosbarth '99' yn Magic Kingdom oedd un o'r uchafbwyntiau, heb sôn am y fwyd ffantastig ym Mhalas Cinderella a gweld y parêd lliwgar yn llawn dawnsweyr a chymeriadau Disney. Mae'n siŵr na chaf wyliau mor arbennig byth eto.

BETHAN PRITCHARD



Ceri Davies efo un o'i ffrindiau newydd.



Y Ddraig Goch yn chwifio ar flaen y parêd — y tro cyntaf erioed i ymwelwyr gael rhan yn y parêd, mae'n debyg — mae enwau'r plant a'r ysgol 'Llanrug Falls'! ar y car.

TEAMBOAT Springs yn Blizzard Beach. Rafft deuluol fwyaf y byd. Gafael yn dynn yn y rhaffau ac i ffwrdd â ni i lawr y dŵr gwyllt. Troi'n igam-ogam ar y ffordd a chychwyn i fyny'r ochrau ar bob tro. Dŵr yn ein gorchuddio ar bob cornel a minnau'n wlyb fel dwfrgi ar y diwedd. Hwn yw un o'r parciau dŵr mwyaf cyffrous y byd ac roeddwn wedi cael y fraint o fynd ar y reids yno.

DION OWEN



Digon o fwyd a digon o hwyl!



Haydn Jones ag un o blant yr ysgol Americanaidd.

Rhagor o luniau a hanes y daith y mis nesaf.



Iwan Williams a Joe Hill a fu'n mynychu'r dosbarthiadau Mathemateg ym Mhrifysgol Bangor.



Elfed Morgan Morris â'r gadair a enillodd yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyndeudraeth yn ddiweddar.

ETHOLIAD

Bydd pleidleisio ym Methel a Rhiwlas yn etholiad Cyngor Gwynedd ar Fai 6. Huw Price Hughes, Llugwy, Stad Eryri, Bethel fydd ymgeisydd Plaid Cymru yn yr etholiad. Mae'n enedigol o Ddeiniolen ac wedi ymddeol bellach o'i yrfa gyda'r heddlu. Fel ysgrifennydd gweithgar Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni mae wedi rhoi arweiniad mewn materion amgylcheddol yn

ymwneud â'n afonydd a'n llynoedd. Mae o'n credu mai denu gwaith i'n hardaloedd gwledig yw un o flaenoriaethau'r Cyngor ac, os etholir, yn edrych ymlaen i wasanaethu ei ardal drwy'r Cyngor.

Yr ymgeisydd arall yn yr etholiad yw Dafydd Guto Ifan, Tan-y-ffordd, Bethel sy'n sefyll fel ymgeisydd annibynnol. Yn anffodus methwyd â chael gafael arno i gael rhagor o wybodaeth i'r *Eco*.

ANTUR WAUNFAWR

Rydym yn chwilio am berson ifanc, cyfrifol i gynorthwyo yn Siop Bryn Pistyll ar ddydd Sadwrn, 10 a.m. - 4 p.m. o ddechrau Mai hyd ddiwedd Awst.

Telir £3 yr awr

Mae'r siop yn gwerthu nwyddau crefft yr Antur a chrefftwyr eraill Cymru.

Bydd angen paratoi lluniaeth ysgafn yn y caffi.

Am ragor o fanylion ffoniwch
Heulwen Huws (01286) 650 721



Ar ben arall y lein . . .

Wel, dyna un peth arall wedi'i setlo. Cewch weld cwch pleser ar Lyn Padarn cyn diwedd y mis ac mae'r fenter wedi cael llawer iawn o hysbysrwydd yn enwedig gan un o bapurau newydd poblogaidd y gogledd 'ma. Am bythefnos gyfan fe ymddangosodd erthyglau yn trin a thrafod y datblygiad a phob tro fe fynegwyd gan y papur mai'r Gymdeithas Bysgota oedd yr unig wrthwynebwyr i'r prosiect. Gwyddom oll fod hyn yn hollol anghywir ac er inni ffonio golygydd y papur hwnnw laweroedd o weithiau iddo gywiro'r gosodiad ofer fu ein hymgais. Yn anffodus, nid yw hyn yn beth unigryw gyda'r papur dyddiol hwn ynglŷn â gweithgareddau'r Gymdeithas — pam eu bod mor gyndyn o ddweud y gwir, 'sgwn i. Un eglurhad a gafwyd dros y ffôn oedd mai Cyngor Gwynedd oedd wedi dweud wrth eu staff mai'r Gymdeithas oedd yr unig wrthwynebwyr. Os dyna'r gwir, tybed pa wybodaeth a roed i'r cynghorwyr a wnaeth y penderfyniad i ganiatau'r cais i redeg busnes y cwch? A wyddent fod Cyngor Cymuned Llanberis — ymysg eraill — hefyd yn gwrthwynebu'r prosiect? Os oedd y wybodaeth yn eu meddiant yna beth yw pwrpas cael Cynghorau Cymdeithas os awybyddir eu penderfyniadau a'u hewyllys?

Wrth gwrs mae rhai eisiau troi yr hen ardal yma i fod fel Blackpool, yn does? Syniad da i rai fyddai dal y trên o Gaernarfon i Ryd-ddu; cable-car neu llama i gopa'r wyddfa; trên bach i lawr i Llanbêr; yna'r cwch ar draws y llyn i'r Gilfach Ddu; tryc i fyny'r incline i Ddinorwig ac yna . . . wel, wn i ddim sut i fynd o'r fan honno i Gaernarfon — bydd gwobr i'r sawl gaiff y syniad mwyaf gwreiddiol! Cofiwch sut le ydi Blackpool heddiw — fuasech chi'n licio byw yn fan'no?

Ond rwan i droi at y 'sgota. Mae'n dda gen i ddweud bod dechrau'r tymor wedi bod yn ardderchog gyda'r Seiont wedi bod yn 'sgota'n arbennig o dda yn ystod y tywydd oer. Roeddwn i'n sgwrsio efo aelod o'r Gymdeithas ar lan yr afon yn ddiweddar a dywedodd wrthyf ei fod o wedi gweld peth anghyffredin iawn. I lawr y Finiog roedd o pan ddaeth hi'n gawod o genllysg ac yn ystod y gawod roedd yna naid o bysgod fel nas gwelodd o erioed o'r blaen. Roedd fel petai pob un o drigolion y dŵr am ddangos eu hunain — y peth agosaf i'r 'naid wylt' a welwyd ar Lyn Padarn rhai blynyddoedd yn ôl. Rhaid dweud, wrth gwrs, i bedwar brithyll braf fynd i'r rhwyd yn ystod y gawod genllysg!

Gallaf innau gadarnhau bod y nifer o sils yn yr afon eleni yn fwy nas gwelais ers dechrau problemau Llyn Padarn a gobeithiaf yn fawr fod pethau'n gwella ac y deil i wella.

Fel y soniais o'r blaen yn y golofn hon ynglŷn â chynllun gwella'r afon mai un rhan yw magu eogiaid hyd nes bod greddf natur yn eu galw i'r môr. Roedd bron i 9,000 yn y 'tanc gollwng' yn y Ddeorfa ac, hyd 24 Ebrill, roedd oddeutu 6,000 wedi ymfudo i'r môr. Mae hyn yn newyddion arbennig o dda gan ein bod yn gobeithio efelychu'r un patrwm â'r hyn sydd wedi bod mor llwyddiannus ar Afon Delphi yn Connemarra, Iwerddon. Maen nhw'n magu 60,000 o gywion eogiaid a'r tymor diwethaf gwelwyd

dros 1,000 o eogiaid yn cael eu dal gyda genwair ar yr afon a'r cyfan wedi tarddu o'r cynllun gollwng. Mae yna westy ar lan Afon Delphi sy'n llawn o westeion o fis Chwefror tan y 'Dolig a'r rheiny i gyd yn talu oddeutu £800 am becyn wythnos sy'n cynnwys llety a'r 'sgota. Mae menter y gwesty hwnnw yn cyflogi dros ugain o staff llawn-amser ac mae'r arian a werir yno i gyd yn troi o fewn cymdeithas pentref sydd yr un maint â Nant Peris. Rydym yn ffyddiog y gallem ninnau wneud yr un peth yn union ar y Seiont a'r Llyfni.

O'r Llyfni daeth newyddion bod eogiaid yn barod wedi dechrau rhedeg yr afon a gwelwyd nifer dda o oddeutu saith pwys yn mynd dros peiriant cyfrif pysgod ym Mhont y Cim. Rwy'n gobeithio cael dadansoddiad o'r hyn sy'n mynd ymlaen yno pan gaf y ffigyrau o'r peiriant cyfrif gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dros y penwythnos 3-4 Ebrill cynhaliwyd cystadleuaeth 'sgota plu ar Lyn y Dywarchen a'r enillwyr oedd — dan 15: Iolo Ellis, Bethel; dan 18: Nick Williams, Brynrefail; oedolion: Ned Thomas, Bethesda. Mae'r bluen a oedd ar waith ar 4 Ebrill wedi'i bedyddio yn 'Siani Flewog'.

Mae cryn 'sgota wedi bod ar Lyn Padarn hefyd ond nid yw'r lwc wedi bod yn gyson. Ond, mae un peth yn amlwg iawn, sef bod nifer fawr o bysgod bach yno ac mae hyn, gan ystyried yr hen a welir ar yr afon, yn argoeli'n arbennig o dda i'r dyfodol. Ynglwm â hyn mae'n eithriadol gweld cynifer o ieuenctid ein pentrefi sy'n ymrafael â'r wialen.

Cofiwch bod diwrnod o hyfforddi a 'Blas ar 'Sgota' i'r rhai sy'n bwriadu dysgu'r grefft i'w gynnal ar Lyn y Dywarchen ddydd Sadwrn, 22 Mai, rhwng 1 a 4 o'r gloch y pawns. Bydd croeso i bawb — ac mae popeth am ddim!

Wrth gloi, clywais fod cyn-longwr o Lanberis sy'n Gynghorydd Cymuned blaenllaw ac yn aelod o'r Gymdeithas am gynnig ei hun fel Capten y cwch newydd. Wel, hwyl a fflag ddweda i!!

Adfywio Bro

Erbyn hyn mae canlyniadau arolwg bro Waunfawr a Chaeathro wedi'u dychwelyd i'r swyddfa Adfywio Bro. Yn dilyn cyfarfodydd â'r grwpiau gwahanol, rwan mae'r gwaith ysgrifennu'n dechrau o ddifri — creu'r adroddiad! Ar drywydd arolwg bro arall, mae Cyngor Cymuned Betws Garmon am ohirio cynnal cyfarfod cyhoeddus tan ar ôl mis Mehefin ond unwaith y penodir dyddiad trigolion y fro fydd y cyntaf i gael gwybod.

Os hoffech drafod unrhyw syniad ar gyfer eich cymuned ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfaï cysylltwch â hi yn ei swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr ar (01286) 650 779. Dewch yn rhan o'r bwrlwm adfywio — cysylltwch ag Eirian a gwnewch y mwyaf o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Mrs Helen Jones, 3 Ffrwd Madog ddiolch yn gynnes iawn am bob caredigrwydd a dderbyniodd gan deulu a ffrindiau yn ystod cyfnod pur faith yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod adref yn dilyn y ddamwain gafodd pan fu mewn gwrthdrawiad â modur wrth groesi ffordd osgoi y pentref.

MARWOLAETHAU. Trist yw cofnodi marwolaethau dau o drigolion y pentref yn ystod y mis a aeth heibio. Yn dilyn afiechyd blin bu farw Thomas James McCafferty, 10 Trem Eilian yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 27ain yn 61 mlwydd oed. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Gatholig Sant John Jones, Llanberis ac yn dilyn yn Amlogfa Bangor.

Ddydd Llun, Ebrill 12fed, yn ddisymwth, bu farw Mrs Jenny Olwen Roberts, Fferm Penllyn yn 79 mlwydd oed ryw flwyddyn yn unig yn dilyn marwolaeth ei phriod, y diweddar Mr Bobby Roberts. Bu'r angladd cyhoeddus yn Eglwys Llanddeiniolen ac yn dilyn ym mynwent yr Eglwys.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd yn eu profedigaeth. CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor 1999 o'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Ebrill 15fed. Cadeirydd y noson oedd Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian. Cyflwynodd y cadeirydd ŵr gwadd y noson, un o blant y pentref yn ôl i'w fro enedigol, sef Mr Rol Williams, Waunfawr. Testun ei sgwrs oedd 'Hen Deuluoedd Gwauncwm-brwynog' a chafwyd darlun byw o'r gymuned honno ar lethrau'r Wyddfa a'r cyfan yn dangos llawer o waith ymchwil diddorol.

Diolchwyd i'r siaradwr gwadd gan y cadeirydd a chafwyd cyfraniad

pellach o atgofion gan Mrs Eirlys Williams a Mr Richard Wyn Evans.

Gofalwyd am y lluniaeth gan Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian a Mrs Eirlys Williams, Marino.

Ar ddiwedd y cyfarfod trefnwyd i gefnogi'r ymgyrch i anfon cymorth arinnol i ffoaduriaid Kosova.

Dosbarthwyd Bwletin y Chwiorydd a threfnwyd Casgliad y Genhadaeth gogyfer â Sasiwn Chwiorydd y Gogledd a gynhelir ar Fai 4ydd yng Nghricieth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 20fed pryd yr edrychir ymlaen am gwmni y Parchg Idris Thomas, Trefor. Estynnwn groeso i unrhyw un a garai ymuno â'r Gymdeithas yn y cyfarfod hwn gan fod y ddarlith ar ei waith ymchwil i drasiedi Ysgol Sul Dinorwig ym Mhwlheli o ddi-ddordeb i nifer yn yr ardal a'r digwyddiad ag arwyddocad arbennig ar Orffennaf 1af eleni, sef union gan mlynedd wedi'r drychineb.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Dyma drefn oedfaon mis Mai —

2: CYMANFA DOSBARTH

PADARN yng Nghapel Brynrefail am 2 a 6 o'r gloch.

9: Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda (5.30)

16: Mr Meirion Evans, Lerpwl (10)

23: Mr Huw Jones, Llanwnda (5.30)

30: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)

**CYMANFA
DOSBARTH PADARN
yng Nghapel Brynrefail
dydd Sul, 2 Mai 1999
am 2 a 6 o'r gloch**

**Arweinydd:
Mrs Mair Hughes**

**Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?**

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorchug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafie, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

Y CYNGOR EGLWYSI. Cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r Pasg yng Nghapel Libanus, nos Iau, Ebrill 1. Gweinyddwyd sacrament Swper yr Arglwydd. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parchg John Pritchard.

CASGLIAD KOSOVO. Trefnodd Cyngor Eglwys Deiniolen gasgliad arbennig er mwyn helpu ffoaduriaid Kosovo. Agorwyd festri Ebeneser am wythnos gyfan i dderbyn bwydydd a dilladau i'w hanfon i'r ffodaduriaid. Diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau ac arian, a diolch i bawb fu'n derbyn y nwyddau ac yn eu pacio.

CEFNYWAUN AC EBENESER. Cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Cefnywaun ddydd Sul y Pasg. Gwasanaethwyd gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Bydd Cyfarfod Pregethu Ebeneser yn cael ei gynnal ddydd Sul, Mai 9. Gwasanaethir gan y Parchg Ddr Geraint Tudur, Bangor. Yn y cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd y ddwy eglwys a gynhaliwyd ddydd Iau, Ebrill 15, croesawyd Miss Eleri Roberts, Noddfa, Caernarfon a chafwyd peth o hanes y gwaith yn Noddfa ganddi.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i Mrs Nansi Jones, Abergele (gynt o Weirglodd Goch) yn ei phrofedigaeth chwerw o golli ei phriod, y Parchedig Isaac Jones. Bu'r Parchg Isaac Jones yn weinidog ar eglwys Cefnywaun o 1952 hyd 1957, a pharhâi i ymweld â'r ardal yn aml. Cydymdeimlir hefyd â'r plant, Eleri, Llion ac Euros a chyda'u teuluoedd yn eu colled. Roedd y Parchg Isaac Jones yn fardd a llenor dawnsu ac yn bregethwr cymeradwy iawn. Mawr iawn fydd y golled ar ei ôl.

CYFEILLION EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, Ebrill 7. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yng nghwmni Mr Dewi Jones, Pen-y-groes yn siard am 'Planhigion Prin Eryri'. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y Parchg Tegid Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Mai 5, am 7 o'r gloch a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Idris Thomas, Trefor. Croeso cynnes i bawb.

APÊL KOSOVO. Dymuna Cyngor

Eglwys Deiniolen ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl yn ystod wythnos Ebrill 12-17. Bu'r ymateb yn ardderchog a derbyniwyd llawer o nwyddau a'r swm o £671 hyd at Sadwrn, Ebrill 17.

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Morris, Llechwedd ar ei lwyddiant arbennig yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyndeudraeth. Enillodd Elfed gadair yr Eisteddfod am ei gasgliad o waith llenyddol ac fe gafodd ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad, y Parchg Gwenda Richards, ynghyd â thair gwobr gyntaf am ei unawdau — unawd dan 19; Alaw Werin dan 19; ac fe enillodd wobwr arbennig Mrs Elisabeth Wyn Sommaro o Genefa am yr unawd cerdd dant dan 19. Dymuna'r teulu oll ei longyfarch a dymuno'r gorau iddo i'r dyfodol.

ENILLWYR CLWB CANT PLAID CYMRU am fis Chwefror — £10 Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog; £5 Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin. Mis Mawrth — £10 Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Olau; £5 Cyngorydd Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Mis Ebrill — £10 Mrs Myfi Jones, 11 Hafod Olau; £5 Mrs Pat Beckett, 37 Rhydfadog.

DIOLCH. Dymuna Jennie Goldsworthy, 34 Hafod Olau ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl iddi ddo ddo gartref. Diolch hefyd i staff Ward Enlli am eu gofal a'u caredigrwydd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Joan Parry, 3 Tai Gwyrfa'i a'r teulu yng Nghaernarfon ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd atynt yn eu profedigaeth o golli eu mam. Diolch yn fawr hefyd i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth ym Mynwent Llanbeblig. Trosglwyddir y rhoddion i Feddygfa Deiniolen.

'Wyddech chi . . .?'

'Gwybod be, a pham?'

'Wel, am 'i fod o'n bwysig!'

'Wel, tasech chi wedi rhoi

yr hanes yn *Eco'r Wyddfa*

mi fyddai pawb yn yr ardal

yn gwybod . . .'

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am Fwffe Enwog Nerys

i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis**

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian wedi cael dod gartref wedi iddo dreulio rhai wythnosau yn yr ysbty. Gobeithio y bydd yn cryfhau o ddydd i ddydd.

Mae Mr Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol hefyd wedi bod yn yr ysbty yn Lerpwl ond bellach wedi cael dod adref. Brysiwch wella eich dau.

MARWOLAETH. Yn ddiweddar yn Balinwalaeth. Yn ddiweddar yn Vaughan Jones yn 33 oed wedi cystudd hir a blin a ddiodeffodd yn ddewr iawn. Roedd yn fab i'r ddiweddar Ann Catherine ac Eric Jones, 3 Bro Elidir gynt ac yn frawd i Alwyn a Wyn. Gedy wraig, Michelle a thri o blant, sef Alex, Bronwen Ann ac Abigail. Yn ôl ei ddyddiad fe wasgarwyd ei lwch ar dir Braich Poeth ddydd Gwener, 9 Ebrill, gyda'r Parchg Gwynfor Williams a'r Tad Deiniol o Flaenu Ffestiniog yn chwarae llawer ar y tir hwn yn ystod ei blentynod. Derbyniad y teulu ein cydymdeimlad llwyr â hwy yn eu profedigaeth.

PRIODAS RHUDDDEM. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Peris Roberts ar ddatlu eu priodas rhuddem ar 28ain o Fawrth. Gobeithio y cânt flynyddoedd lawer eto yng nghwmni eu gilydd. Pob bendith i chwi eich dau i'r dyfodol. Gobeithio i chwi fwynhau'r te i ddatlu yng nghwmni eich ffrindiau.

CAPEL M.C. Ddydd Sul, 11eg Ebrill, cafwyd y fraint o estyn croeso i'r Parchg John Owen, Rhuthun i'n gwasanaethu yn oedfa'r prynhawn. Saith mlynedd yn ôl y bu yma ddiwethaf, sef yn y Cyfarfod Misol i dderbyn blaenoriaid newydd, ac mae yna dros chwarter canrif ers iddo bregethu'r Gair inni a hynny tra roedd yn weinidog yng Ngorffwysfa a Phreswylfa, Llanberis. Diolch iddo am ei bregeth amserol iawn a'i

barodwydd i ymweld â ni unwaith eto.

COLLI CYN-WEINIDOG. Yn ystod gwyliau'r Pasg syfrdanwyd yr ardal gyda'r newydd trist am farwolaeth sydyn y Parchg Isaac Jones, Abergele. Daeth Mrs Jones yma yn weinidog ar eglwys Cefnywaun yn ystod y pumdegau ac yna fe ymunodd Eglwys M.C. Dinorwig â Cefnywaun. Rydym fel llwyr i'w briod, Mrs Jones (Nancy) a'r teulu oll yn eu profedigaeth, a gwyddom y ceuwch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

CYFARFOD PREGETHU. Bydd cyfarfod pregethu Capel Sardis ar y 23ain o Fai, sef y Sulgwyn. Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Dewi Morris, Trawsfynydd. Cynhelir dwy oedfa, sef am 2 a 5.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CAE CHWARAE'R PLANT. Cafwyd ar ddeall gan Gwynfor Gwynedd y cwblheir y mân waith sy'n weddill o fewn y mis a gobeithio y caiff y plant dreulio oriau dedwydd yno. Hwyl fawr i chwi blant.

EISTEDDFOD. Erbyn y daw'r Eco o'r wasg gobeithio'n y bydd yr Eisteddfod wedi ei chynnal. Fel y cofiwch ar y trydydd chynig y llwyddwyd i'w chynnal y llynedd oherwydd eira mawr. Pe baem wedi yr un sefyllfa yn union eto eleni! Felly, ar y 27ain o Ebrill y bydd yr Eisteddfod yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch. Y beirniad fydd - Cerdd: Mrs Mair Huws, Llanrug; Adrodd: Mrs Meira Turner, Waunfawr; Llenyddiaeth: Mr Eurig Wynn, Y Groeslon; Coginio! Miss Bridget Hughes, Deiniolen. Gobeithio y cawn Eisteddfod lwyddiannus.

PEIDIWCH A GORI
AR STORI -
ANFONWCH HI I'R ECO



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
- TENEUWCH -
SLIM CHWIM MEWN DIM!

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH i'r rhai a ddaeth ynghyd i blygu rhifyn diwethaf o'r Eco ac yn arbennig i Karah a'i ffrind, Luke, Geraint, Josh, Llion a Kevin.

CYDYMDEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Idwal Williams, Elidir View yn ei brofedigaeth o golli brawd.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Angela Royster, Tryfan ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbty Gwynedd.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd y Gymanfa Eleni nghanol Bosra, Penisarwaun gyda chyfarfod y plant yn y prynhawn a'r Gymanfa Ganu yn yr hwyr.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Ebrill 12. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Cydymdeimlwyd â Mrs Margaret Latham yn ei phrofedigaeth o golli ei thad. Yr oedd rhai materion i'w trafod. Bydd y Foneddiges Eames, llywydd bydeang Undeb y Mamau yn ymweld a'r Esgobaeth 25-27 Mai.

25 Mai gweinyddir y Cymund Bendigaid yn y Gadeirlan, Bangor.

26 Mai cynhelir Garddwest ym Mhenrhyndeudraeth.

27 Mai bydd Bore Coffi ym Mangor.

Diolchwyd i'r aelodau am wau dillad i blant y trydydd byd.

Croesawyd y wraig wadd, Mrs Pam Castle, Moelfre gan Mrs

Dorothy Jones a mwynhawyd weddill y noson yn gwrandao ar dapiau o gerddoriaeth addas i leddfu'r nerfau ac fe eglurodd Mrs Castle pam roedd wedi dewis y tapiau arbennig hynny. Diolchwyd iddi gan Mrs Sandra Hughes. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs menna Roberts a Mrs Sandra Birbeck a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Winnie Holt. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Margaret Latham. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 5ed o Fai. CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YR YSGOL. Ar ran y Gymdeithas dymunwn ddiolch yn fawr i bawb a gefnogodd yr Ocsiwn a gynhaliwyd yn Nhafarn Penbont ym mis Mawrth. Diolch arbennig i Sue a Huw am y croeso yn y dafarn. Diolch yn fawr i'r Arwerthwr a staff cwmni Dafydd Hardy am eu hamser a'u cefnogaeth. Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus dros ben. Edrychwch ymlaen yn dda. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI**

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMANFA'R ANNIBYNWYR — Cylch Deiniolen a Llanberis. Ddydd Sul, Ebrill 18, cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Bosra. Am 2 o'r gloch cafwyd eitemau gan blant Ysgolion Sul y cylch. Diolchir i'r plant a'r hyfforddwy am eu gwaith caled. Roedd y capel bach dan ei sang a chafwyd canu hwyliog dan arweinyddiaeth gartrefol Mrs Marina Jones. Roedd y rhan ddechreuol yng ngofal plant hŷn capel Bosra gyda Mrs Elizabeth Jones a Mrs Bronwen Jones yn arwain. Cafwyd gair o groeso cynnes gan Mr Evie Jones. Roedd hi'n galonogol iawn, yn enwedig y dyddiau hyn, gweld cymaint o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan a hynny mor gydwybodol. Gwnaed casgliad sylweddol iawn tuag at Action Aid a bydd rhan ohono yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Katalan, y ferch fach groenddu y mae'r Ysgolion Sul wedi'i mabwysiadu ac yn talu am ei haddysg.

Yng nghymanfa'r hwyr am 6 o'r gloch daeth cynulleidfda deilwng iawn i Bosra a chafwyd canu gydag arddeliad o dan arweiniad profiadol a chartrefol Mrs Mair Huws, Llanrug. Roedd datganiadau gan Gôr Dyffryn Peris, dan arweiniad Mair a'r gyfeilyddes Hefina Jones, yn sicr wedi ategu at lwyddiant y Gymanfa. Cafwyd eitemau addas, soniarus a disgybledig ganddynt. Diolch hogial Cafwyd datganiad hyfryd hefyd gan John Eifion a diolchir iddo am ei gyfraniad gwerthfawr. Gwnaed casgliad tuag gronfa'r Gymanfa.

Llywyddwyd y Gymanfa gan y Parchg John Pritchard, Llanberis a bu'r rhan ddechreuol yng ngofal Elizabeth Jones a Bronwen Jones, Bosra. Diolchir i bawb a gefnogodd y Gymanfa.

CYMANFA'R METHODISIAID — Cylch Môn ac Arfon. Bnawn Sul, Ebrill 25, yng Nghapel Hiracl, Bangor bu aelodau Ysgol Sul Undebol Bosra yn cymryd rhan unwaith eto. Ein thema oedd, 'Teithio'. Diolchir iddynt am eu gwaith caled ac am eu ffyddlondeb i'r ddwy Gymanfa. Diolch hefyd i'r athrawon Ysgol Sul ac am gefnogaeth y rhieni. Bydd cyfle i ymlacio am ychydig rwan cyn gwasanaeth Sul y Beiblau. Bydd cyfle i wyllo fideo Feiblaidd, cael

cwis Beiblaidd ac yn sicr rhaid fydd trefnu trip yr Ysgol Sul. **PWYLLGOR NEUADD.** Cynhaliwyd Disgo'r Pasg yn y Neuadd Gymunedol a daeth nifer fawr o bob oedran yno. Diolchir i aelodau'r pwyllgor oedd yno ac yn sicr i Myrddin Jones a Dafydd Williams am gymryd gofal o'r Disgo.

Tynnwyd Clwb Cant mis Ebrill a'r enillwyr oedd: 1, Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys; 2, John Eifion Jones, 7 Bryn Eglwys; 3, Robin Griffith, Groeslon Isaf, Penisarwaun.

COLLI ANWYLIAD. Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Alan Rees Jones, 4 Bryn Eglwys yn ei brofedigaeth o golli ei dad; ac ewythr i Bronwen Jones, Cae Corniog Bach.

Ar Fawrth 30, yn dawel yn ei gartref, bu farw Richard Williams wedi gwaeledd hir. Cydymdeimlir yn ddwys iawn a'i wraig, Catherine, a'r plant Brenda, Ken a Kevin a'r cysylltiadau oll.

LLONGYFARCHIADAU. Mawrth 31 dathlodd Llion Roberts, Tai Croesion ei ben-blwydd yn 21ain. Pob benthith iti Llion a phob dymuniad da iti yn dy arholiadau pwysig yr haf yma.

Llongyfarchiadau mawr i Lois Eifion, 7 Bryn Eglwys ar ennill marciau uchel iawn yng ngradd I gyda'r piano. 'Hysbys y dengys dyn!' Dalia ati, Lois.

DIOLCH. Dymuna Llion ddiolch i'w rieni, Sioned a'r teulu, Siôn a Wena, Sarah a'r teulu i gyd ynghyd a'i ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21ain.

Dymuna Mrs Catherine Williams a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion yn eu profedigaeth ddiweddar.

Dymuna Eurwyn a Shirley, Camelot a'r teulu oll ddiolch i bawb am y llu cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

Da deall fod Arfon Jones, 6 Bryntirion yn gwella'n dda wedi'i ddamwain yn ddiweddar. Dymuna Arfon ddiolch i bawb am eu geiriau caredig ac am y llun cardiau a'r ymweliadau.

DIOLCH WEDI CYRRAEDD 100. Dymuna Mrs Annie Williams,



Grŵp 'priodas' Christopher a Lois yn yr Ysgol.

Meillionydd ddiolch o galon i'w theulu annwyl, cymdogion a ffrindiau bro'r Eco am yr holl gardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei phen-blwydd arbennig iawn yn gant oed. Cafodd ddiwrnod i'w gofio a'i geiriau doedd ydoedd: 'Mae'n braf cael cymaint o ffrindiau a dim gelynyddion!'

GWELLHAD. Deallir bod nifer ohonoch wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Gobeithio eich bod i gyd yn gwella.

Anfonir ein cofion anwylaf at Amranwen, Gwyddfor a William, Penpwlloch, wedi'i triniaethau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydym oll yn dymuno gwella'n buan i'r ddau ohonoch.

CYDNABOD GOFAL. Dymuna pawb yma ym Mhenisarwaun a chylch Deiniolen ddiolch o galon i'r Parchg Tegid Roberts am ei wasanaeth clodwiw fel Clerig Mewn Gofal dros y blynyddoedd. Braff iawn ydoedd cael ymuno yng ngwasanaethau undebol a drefnwyd ganddo — yn

arbennig felly ar noswyl y Nadolig. Diolch o galon, Tegid.

DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG. Y mae bywyd yn dechrau o ddiffrwân i David Philips, Jean Jones ac Ann Owen. Pen-blwydd hapus i'r tri ohonoch.

NEWYDDION O'R YSGOL. Bu dydd Gwener, 19 Mawrth yn ddiwrnod arbennig iawn yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Cynhaliwyd 'ffug-briodas' rhwng Christopher Hamer a Lois Jones yn neuadd yr ysgol.

Gan fod Cyfnod Allweddol I yn gweithio ar y thema 'Branwen' y tymor diwethaf penderfynwyd astudio priodas fel un Matholwch a Branwen.

Aed ati i roi enwau'r plant i gyd mewn un het fawr a'u tynnu a daeth enw Chris i fod yn briodfab, Lois yn briodferch, a Catrin Jarvis, Elen Hughes a Hannah Smith yn forynion. Carwyn Eddy oedd y gwas. Robot Dafydd Jones a Gruff Gwyn Jones oedd y tywyswyr a phriodwyd Chris a Lois gan 'Y Parchedig' Andrew

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg
tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



PENISARWAUN (parhad)



Lois, a roddodd ddatganiad ar y delyn yn 'Y Briodas'.

Llŷr Woodcock. Cafwyd pedair morwyn fach: Elliw Haf Griffiths, Katie Lewis, Catrin Heledd Williams a Glesni Angharad Jones ynghyd â phedwar gwas bach, Joshua Jones, Bryn Roberts, Liam Morgan a Siôn Evans.

Pan oedd plant yr ysgol i gyd, yr athrawon a'r staff, y llywodraethwyr a rhieni Cyfnod Allweddol I wedi eu gosod yn eu lle cywir gan y tywyswyr fe gyrhaeddodd Lois a'i morynion mewn Rolls Royce! Roedd y bedair yn bictiwr wedi cael gwneud eu gwalltiau a chael ychydig o golur. Gyda charedigrwydd Mr a Mrs Griffiths, Tros y Waun, Penisarwaun cafodd y briodferch ei chario mewn steill!

Cafwyd datganiad swynol iawn gan Lois ar y delyn tra cofrestrwyd y cwplw a chafwyd deuawd ganddi a'i chefnider, Bedwyr. Cynlluniwyd trefn y gwasanaeth gan bedair o flwyddyn 5 a 6, sef Jess Sylvester, Catrin Glyn Roberts, Anest Eifion a Sophie Smith. Cynlluniwyd bwydlen y briodas gan flwyddyn 3 a 4. Yna, wedi'r holl dynnu lluniau mwynhaodd yr ysgol frecwast priodas bendedig a baratowyd gan staff y gegin; gyda chacen briodas gwerth chweil ar ôl y cinio.

Treuliodd Lois a Chris eu mis mêl yn nhŷ Ali eu gwarcheidwad. Yn wir, roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy — yn union fel priodas go-iawn!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCHIADAU

Dymuna Harry a Myfi Roberts, 2 Rhes Plastirion ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth fawr o golli eu hwyres, Emma, yng Nghaerdydd. Diolch hefyd am bob cymorth a gafwyd tra bu Harry yn yr ysbyty.

Dymuna Cledwyn ac Ellen Jones, 4 Hafan Elan ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion, arian a'r dymuniadau da dderbyniant ar ddatlu eu Priodas Aur. Diolch yn fawr iawn i Mrs D. Jones a Mrs G. Kirkpatrick.

Dymuna Mrs Jane Williams a theulu'r diweddar Erasmus Williams, Bryn Llan ddatgan eu diolchgarwch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr holl lythyrau, cardiau a'r galwadau ffôn ac am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am 'Rasmws' fydd yn mynd tuag at Feddygfa Stryd y Farchnad, Caernarfon ac elusen Marie Currië. Diolch i feddygon a nyrsys y Feddygfa ac Ysbyty Gwynedd am eu gofal; ac i E. W. Pritchard a'i Fab yr ymgymerwyr am eu trefniadau trylwyr. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r Parchg Dafydd Hughes am ei wasanaeth.

Dymuna Olwen Llywelyn, Llanrug ac Emily Hughes, Caeathro, a theulu'r diweddar Dyfrig Huws Jones, Pen-y-groes ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth o golli Dyfrig. Diolch i bawb a fu'n ymweld â Dyfrig, a ffoniodd i anfon eu cofion ac a anfonodd gardiau, llythyrau, rhoddion a blodau iddo tra bu yn yr

ysbytai. Gwerthfawrogodd bob caredigrwydd. Bu'r gofal a gafodd Dyfrig gan Dr E. Parry, Pen-y-groes, ysbytai Gwynedd, Clatterbridge ac Uned MacMillan Bryn Seiont yn arbennig o broffesiynol a charedig. Mae ein diolch iddynt oll yn gywir a diffuant. Casglwyd £800 hyd yma, er cof am Dyfrig ac er budd Uned MacMillan Bryn Seiont. Diolch i bawb ohonoch am eich haelioni.

Dymuna Mrs Nansi Jones, 20 Hafan Elan ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar y 12fed o Ebrill. Diolch hefyd i Mrs Val Joanes a Mrs Dilys Jones am drefnu parti yn Y Bedol, Bethel.

Dymuna Rhian a Dyfed, Tryfa, Tai Arfonnia ddiolch i bawb am yr holl anrhegion, rhoddion a'r dymuniadau da yn diyn yr priodas yn Llanrug ddechrau fis Ebrill.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn â theulu Mrs M. Ellis, 10 Rhos Rug a fu farw ym Mhlas Pengwaith, Llanberis yn ddiweddar.

Syfrdanwyd yr holl ardal gyda'r newydd tris am farwolaeth Gwyndaf Jones, Glanffynnon. Bydd colled anferth i Eilee a'r plant, a'r teulu oll ac i bawb a oedd yn cydweithio ag ef ac yn ei adnabod yn dda a hynny yn y pentref a'r ardal trwy ei holl weithgareddau a'r pwyllgorau yr oedd yn ymwneud â hwy. Roedd o'n berson mor weithgar ac yn barod ei gymwynas a chanddo gymaint o ffrindiau. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs W. Griffith, 9 Hafan Elan ar golli chwâr Mr Griffith, sef Jennie Olwen o Benllyn ac anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Griffith sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Tyddyn Elan. LLONGYFARCHIADAU i Fiona Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf ar ei llwyddiant yn arholiad gradd 1, piano, gydag anrhydedd. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau i Cledwyn ac Ellen Jones, 4 Hafan Elan ar ddatlu eu Priodas Aur ar y 18fed o Ebrill. Fe drefnwyd parti iddynt yn Gwêl y Llyn, Llanberis.

Llongyfarchwn Rhian Williams a Dyfed Whiteside Thomas ar achlysur eu priodas yn Nghapel y Rhos, Llanrug ddechrau Ebrill. Maent wedi cartrefu yn Tryfan, Tai Arfonnia, Pontrhythallt.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Bethan Mackinnon, Plas Tirion ar lwyddo mewn arholiad theori, gradd 3, gyda rhagoriaeth yn ddiweddar. DYMUNIADAU GORAU i Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan gynt, sydd erbyn hyn wedi cartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Cofion gorau atoch oddi wrth trigolion Hafan Elan.

CROESO GARTREF i Mr William Jones, 11 Hafan Elan wedi iddo dreulio amer yn yr ysbyty. Hefyd Mr Dylan Owen, 10 Hafan Elan.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Ebrill 13 aeth criw da o'r aelodau i festri Capel y Graig, Penrhosgarnedd i gynnal 'Ymryson Ysgafn' gyda changen Penrhosgarnedd. Y Meuryn di-duedd a ffraeth oedd Meirion McIntyre Huws neu Mei Mac! Yn sicr

bu hon yn noson tu hwnt o ddifyr gyda chystadlu cyfeillgar a digri. Cafwyd llond bol o chwerthin iach a phawb yn rhyfeddu at ddawn Meirion Mac o gofio'r holl limrigau a'r englynion. Profodd ei hun yn ddiddannwr o'r radd flaenaf gyda'i gynghorion doeth am arddio a'i straeon doniol am ei bobl ei hun, rhai agos iawn at ei galon, sef y Cofis. Cangen Llanrug a enillodd o drwch aden glöyn ond nid oedd hynny'n bwysig ar ôl yr holl chwerthin a thynnu coes. Diolchodd Ann Ifans i aelodau cangen Pen-rhos am noson i'w chofio ac i Meirion McIntyre Huws am ei feuryna hwyliog. Gobeithio y ceir cyfle i gangen Penrhosgarnedd ddod i Lanrug gyda Mei Mac wrth gwrs!

Prynhawn Sadwrn, Ebrill 17 cynrychiolwyd y gangen yn Eisteddfod Rhanbarth Merched y Wawr yn Neuadd Ogwen, Bethesda gan Barti Alaw Werin dan arweiniad Megan Roberts. Roedd pedwar parti yn cystadlu a Llanrug a orfu. Bydd y Parti yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Merched y Wawr yn Llandrindod ym mis Mehefin. Diolchir iddynt am gynrychioli'r gangen ac i Megan am ei hamynedd a'i hymroddiad. Diolch Megan. Pob hwyl ym mis Mehefin. Bydd cyfle i chwi glywed y Parti yn canu yn y cyfarfod nesaf a gynhelir nos Fawrth, Mai 11. Felly, down i gefnogi a gwerthfawrogi.

YR YSGOL GYNRADD

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i Ms Amranwen Lynch, y dirprwy-bennaeth, sydd newydd dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Ms Nia Gwawr Jones sydd yng ngofal plant blwyddyn 2 yn ystod absenoldeb Ms Lynch. Croeso iddi atom.

Ymarfer dysgu. Croeso hefyd i Mrs Julie Williams, Ms Catrin Jones a Mr Gareth Parry atom am fis o ymarfer dysgu.

I'r Genedlaethol. Llongyfarchiadau ar eu llwyddiant a dymuniadau gorau i'r Grŵp Dawnsio Gwerin dan 12 ac i Debbie Hughes ac Emma Catherine Williams, deuawd dan 12, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan y mis nesaf.

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMBOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

PEIDIWCH A GORI AR STORI

anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

LLYFR NEWYDD. Llyfr diweddaraf Geraint Bowen, Cefn Coed, Stad Glandŵr yw *Ar Drywydd y Mormoniaid* (Gomer, £7.95). Ganed Geraint yn Llanelli ac enillodd Gadair yr Eisteddfod yn 1946 a bu'n Archdderwydd Cymru rhwng 1978 ac 1981. Ymhlith ei gyfrolau diweddaraf y mae, *O Groth y Ddaear* (1995); *Bro a Bywyd: W. J. Guffydd* (1994); *Y Drych Kristnogawl* (1996) ac ar y cyd â'i wraig, Zonia, *Hanes Gorsedd y Beirdd* (1992). A fydd hanes Caeathro ei lyfr nesaf?

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr nos Fercher, 7 Ebrill. Yn anffodus nid yw perchennog 1 Bryn y Gof wedi torri'r tyfiant ochr lôn Pen-rhos i lawr at 4 troedfedd er mwyn gwella a diogelu'r wal. Bydd y gwaith o drwsio cefn y sedd sydd ar sgwâr y pentref yn cael ei wneud cyn bo hir. Rhoddwyd y gwaith, trwy dendr, i dorri llwybrau cyhoeddus 31 (200metr), 44 (25metr) ac oddi ar 44 i 48 (107metr) unwaith y flwyddyn i Terry Brown, Glan Aber, Waunfawr. Talwyd teyrngedau i wasanaeth y Cynghorydd Albert Jones yn ei gyfarfod olaf o'r Cyngor cyn iddo symud o'r pentref. Penderfynwyd pwyso ar Gyngor Gwynedd i dorri'r gwaith yng nghanol y pentref yn fisol a sicrhau parhad yr arian ar gyfer man chwarae'r plant lleiaf, a chodi arwyddion diogelwch y ffyrdd cyn gynted â phosib.

CYNGHORWYR. Penderfynwyd gan y Cynghorwyr Albert Jones a Bobby Owen beidio sefyll fel cynghorwyr Ward Caeathro ar Gyngor Cymuned Waunfawr. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth dros y bedair blynedd ddiwethaf. Dim ond dau gynnig ddaeth ar gyfer y ddwy sedd yng Nghaeathro. Felly, Cynghorwyr Cymuned newydd y pentref o 10 Mehefin ymlaen fydd vera Roberts, 10 Erw Wen a Clive James, Hafan.

Ar gyfer sedd Waunfawr ar Gyngor Gwynedd yr unig ymgeisydd yw Eurig Wyn a bydd felly'n cynrychioli Caeathro, Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd-ddu ar Gyngor Gwynedd ar ôl 6 Mai. Yr un yw'r sefyllfa gyda'r Cynghorydd Dafydd Iwan a fydd yn cynrychioli Maes y Coed a Bryn Mair ym Mhen-rhos, Rhos-bach a'r Bontnewydd. Edrychwn ymlaen at gynrychiolaeth effeithiol ganddynt.

Mai 6ed yw dyddiad etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Bydd yr Orsaf Pleidleisio yng Nghapel Caeathro. LLONGYFARCHIADAU. Ganed bachgen bach yn y pentref dros gyfnod y Pasg. Y rhieni balch yw Lynne a Steve Rees, Pen Lôn. Enw'r babi newydd yw Osian. Yn awr mae yna 36 o blant a babanod hyd at oedran blwyddyn olaf ysgol gynradd yn byw ym mhentref, ward ac ardal post Caeathro.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Enillwyr mis Ebrill oedd — £40 C. Donaldson, Hernes (52); £25 Gwenda Jones, Plas Glangwna (43); £15 Brian Hughes, Glangwna (77); £5 Mike a Dawn Williams Rhyddallt Ganol (4).

TAFARN BRYNGWYNA. Cynhelir noson cwis bob nos Fercher yn y lolf, gyda'r cwestiwn cyntaf am 9 p.m.

TÂN MAWR. Efallai mai'r digwyddiad mwyaf yn hanes Caeathro yn ddiweddar oedd y tân mawr a ddinistriodd Clwb Glangwna. Gobeithiwn y bydd y perchnogion yn medru darparu cyfleusterau dros dro ar gyfer yr ymwelwyr dros yr haf. Hyderwn y bydd yr adeilad newydd yn werth ei weld.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i gynorthwyo'r gynulleidfa gyda'r oedfaon ym mis Mai:

2: Parchg Dafydd Hughes (2)
9: Parchg Harri Parri (5.30)
16: Parchg W. R. Williams (10)
23: Dim gwasanaeth
30: Parchg Dafydd Hughes (2)
Bydd croeso i bawb — ifanc, hen, a rhwng y ddau.

DIOLCH. Dymuna Olwen Llywelyn, Llanrug ac Emily Hughes, Caeathro, a theulu'r diweddar Dyfrig Huws Jones, Pen-y-groes ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth o golli Dyfrig. Diolch i bawb a fu'n ymweld â Dyfrig, a ffoniodd i anfon eu cofion ac a anfonodd gardiau, llythyrau, rhoddion a blodau iddo tra bu yn yr ysbytai. Gwerthfawrogodd bob caredigrwydd.

Bu'r gofal a gafodd Dyfrig gan Dr E. Parry, Pen-y-groes, ysbytai Gwynedd, Clatterbridge ac Uned MacMillan Bryn Seiont yn arbennig o broffesiynol a charedig. Mae ein

diolch iddynt oll yn gywir a diffuant. Casglwyd £800 hyd yma, er cof am Dyfrig ac er budd Uned MacMillan Bryn Seiont. Diolch i bawb ohonoch am eich haelioni.

APÊL KOSOVO. Casglwyd £120 o amgylch y pentref i helpu ffoaduriaid Kosovo. Tynnwyd y raffl fawr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, nos lau, Ebrill 22 a'r enillwyr o Gaeathro oedd — Mrs Vera Roberts, 10 Erw Wen (cinio i ddau yng Ngwesty Seiont Manor); Mr Shaun Atkinson, Cefn Gof (cinio dydd Sul yng Ngwesty Fictoria, Llanberis); Mrs Claire Hanks, 2 Bryn y Gof (gwerth £20 o blanhigion o Seiont Nurseries); Mr Ifor Hughes, Lleifior (cyw iâr o siop cigydd Gavin); Mr Meurig Hughes, Trawsfynydd (bocs o siocled). Enillwyd poteli gwin gan y canlynol: Mrs Jason Jones, 5 Erw Wen; Mrs Eirian Griffith, Anedd; Mrs Vera Roberts, 10 Erw Wen; Mrs Elen Burke, Caeathro Bach. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a'ch rhoddion hael.

DATHLU PEN-BLWYDD. Ar ddiwrnod hanesyddol Etholiad Cyffredinol cyntaf Cymru fe fydd Heather Thomas, 4 Bryn y Gof yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau iddi.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Olivia Manchester, Cartref ar ei phriodas â Richard Roberts ar 24 Ebrill yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Y Bistro, Llanberis a'r parti gyda'r nos yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Croesewir Richard i Gaeathro.

YN YR YSBYTY. Dyna yw hanes Mrs Jean Williams, Mrs Mary Jones (14 Glangwna) a Mr Caradog Hughes, Tŷ Gwyn. Gobeithio y bydd y tri ohonoch yn teimlo'n well ac y cawn eich gweld yn y pentref yma yn fuan iawn.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

LLONGYFARCHIADAU i Evan a Helen Parry, Morwel ar dod yn daid a nain. Ganwyd mab, Deio Rhys, i Einir eu merch ac Euros Davies.

COFION. Anfonwn ein cofion at Brenda Jones, Penhafodlas sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella, Brenda.

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Wavell Roberts

CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CEIR ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG

★
LLEOL NEU HIRBELL

★
LLANBERIS
871539

Alwyn a Sarah Jones

RACCA


PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS

★
PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS

★
PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

Llythyr o'r Merica

Cambria
Wisconsin
January 17th, 1885

Anwyl frawd,

Dylaswn fod wedi ateb dy garedig lythyr yng nghynt, ond gwyddost yn eithaf da pa sut y mae hi yn myned ar ol lingro, oedi ychydig o hyd, nes y bydd wedi myned yn 'ben set' — chwedl Nain.

Tua dechreu y flwyddyn derbynnais liaws mawr o Cards oddiyna. Yr oeddwn yn falch iawn o gi a chath Nhad a Mam ac yn bendifaddau y ddau. Cofia ddiolch droswyf i Margaret Evans. y mae hi yn dal i gofio amdanaf yn dda iawn o hyd.

Cefais lythyr oddiwrth Evan ddoe. Cefais lawer iawn o newyddion ganddo, yn bennaf, cefais ddarlun o Mary Kate. Yr oeddwn yn flach iawn ohono. Y mae yn ddarlun gwir iawn ohoni buaswn yn meddwl. Y mae yn edrych yn naturiol iawn, dywed wrthi fy mod am ysgrifennu attti cyn hir, ac am iddi baratoi erbyn hynny.

Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf glywed am fy hen bartner, ei fod wedi myned mor ddi-barch ohono ei hun. Yr wyf yn meddwl nad oedd neb a gwel gyfleusdra ganddo na mi i adwaen Hugh. Bum yn meddwl lawer gwaith y deuai ryw ddiwedd rhyfedd i Hugh, Bryn Coch. Ni bu erioed gennyf feddwl o rai yn gallu cellwair yn ysgafn am bobl parchus, neu mewn gair arall, spitiu. Yr oedd ef yn un drwg am hynny. Hwyrach eich bod chwi yna yn meddwl fy mod yn cario synied uchel iawn amdano, ond yn wahanol i hynny, yr oeddwn yn credu mae tewi oedd y

peth doethaf i mi. Yr oeddwn yn clywed ei hanes tua Eifionydd tair blynedd yn ol yn rhigwrn, er nad oedd ef na neb arall yn gwybod hynny, ond yr oeddwn yn tewi, gwyddost fy mod mewn mantais dda o hynny, ond nid oedd ef yn gwybod fy mod mewn cystal mantais ag oedd yn ei feddwl. Nid oedd braidd un tro y byddai yn myned yno nad oedd yn cael spri, a dweud y gwir i ti, clywais un yn dweud y diwrnod o'r blaen y byddai yn arfer cael spri tua Castle, Llanberis yn ddigon mynych ar ol iddo ddechreu blaenori Ysgoldy'r Waen, ond druan ohono, y mae wedi tynnu gwarth mawr iawn ar achos crefydd yn Llanberis.

Yr oeddyt yn awgrymu yn dy lythyr diweddfaf dy fod yn meddwl talu ymweliad a'n gwlad ni, yr Ynkees yma. Buaswn yn falch pe buaset yn dod, a hynnu yn fuan. Yr wyf yn credu y buasai y teulu yma yn y Welsh Prairie yn falch iawn o gael dy weled. Ryw ychydig fisoedd yn ol yr oedd y merched yma yn son wrthyf amdanaf, ac yn gofyn i mi paham na buaswn yn ceisio dy hudo yma am dro, y buasent yn credu y gwnaethai les mawr iti. Yr wyf wedi dweud wrth lawer o'm perthynasau yma dy fod yn meddwl dod yma, ac yr oedd pob un ohonynt yn fy siarsio am i mi dy hudo. Yr un peth yr ydwyf yn sicrhono na buasai raid iti dalu am yr un pryd o fwyd yma, ac mi gawsset gystal bwyd a gefast yn Llanberis erioed. Cofia, mai nid gwenieithio i ti yr ydwyf, ond dweud y gwirionedd. Os yr wyt yn tybied fod y daith yn llawer yn erbyn iti i ddod, gelli fy nghoelio i achos yr wyf yn gwybod trwy brofiad beth ydyw y daith o L'pool i New York, ond yn

debyg fel pe buaset yn eistedd mewn parlwr am ryw bythefnos o amser, h.y. os bydd y dywydd yn braf. Ond y mae y daith o New York i fynny yma yn ychydig fwy blinedig am y rheswm fod y cars yn ysgytio mwy na'r steamer. Os wyt yn penderfynnu dod y flwyddyn hon gad i mi wybod yn fuan os yr wyt am ddod yr haf nesaf. Gwnaf aros yn yr ardal hon yn rhagor o dymor, neu os na byddi yn dod yr wyf yn meddwl ar hyn o bryd am fyned i Nebraska, ond os yr wyt ti yn addaw dod yma, gwnaf aros yn yr ardal hon achos pe gawswngengagio fy hunain yn well o lawer na phe buaset yn dod attaf i wlad newydd.

(Secret) Cefais lythyr o Gymru oddiwrth ryw ferch ieuanc ei bod yn bwriadu dod drosodd i'r wlad hon yn March nesaf i aros yn New York gyda chydabod iddi, neu at ei h'ewyrth R. R. Williams i Michigan. Os y daw yr wyf yn sicrhono na byddi da iawn achos y mae just yr un i ddod ymlaen yma, ac am a wn i na wnafeiddim yn well o dan yr amgylchiadau na gael gafael ynddi, y mae yn dod yn naturiol iawn, ac hefyd yn credu ei bod yr un y mae Rhagluniaeth yn ei baratoi i mi. (Cei fwy o'i hanes etto yn hwyrach.)

Cofia anfon i mi yn fuan, dy feddwl mewn cysylltiad a dy daith. Buasai yn dda iawn gennyf pe buaset yn penderfynnu dod yma. Hwyrach y buaswn innau yn gwneud ryw gyttundeb gyffelyb a thithau rhywdro yn hwyrach yn fuan. Y mae Tom yma yn dweud nad aethet yn ol yn fuan pe buaset yn dod yn yr Haf.

A ydyw Eliza wedi mynd i'w lle newydd bellach? Yr oeddwn yn falch clywed ei bod wedi disgyn mewn lle mor ddymunol. Gobeithio y bydd yn dal atto yn hir. A ydyw wedi gwella erbyn hyn? Yr ydwyf wedi disgwyl llawer am lythyr ganddi. Rwyf metthu gwybod beth yw yr achos na buasai wedi ysgrifennu bellach. Rwyf yn disgwyl photo o Janet bob dydd. Rwy'n deall fod Janet yn 'alright' yna. Yr wyf wedi synnu fod Thomas wedi altro cymmaint. A oes dim blys tynnu ei photo arno ef? Buaswn yn falch ohono.

Wel, rhaid terfynnu bellach gan ddisgwyl yn bryderus am atebiad cadarnhaol i'm llythyr.

Ydwyf, dy anwyl frawd,
OWEN W. ROWLANDS

Y GWANWYN

Rhaid cau hen ddrws y gaeaf
i agor drws yr haf,
i dderbyn gwanwyn newydd
a thywydd cynnes, braf.
Bu'r gaeaf yn un creulon,
un brwnt a blêr ei law,
a'r claddwr yn y plygain
yn plygu uwch ei raw.

Roedd brain yn clebran heddiw
ar frigau coed y fro,
yn trwytho ac yn trwsio,
ail-bwytho yr hen do,
er mwyn cael magu teulu
mewn nyth cysurus, clyd,
gan ddsygu'r cywion newydd
fod profiad yn beth drud.

Wrth droedio ffridd y mynydd
mi welais oenig gwyn
yn neidio ac yn prancio
wrth lidiart Pen-y-bryn.
Fe glywais gri'r gylfinir
yn dweud yn ddigon clir
bod eto wanwyn newydd
yn siŵr o ddod cyn hir.

Mi welais flodau'r gwynt
yn tyfu dan y coed;
y daffodil a'r briallu —
yr harddaf fu erioed;
roedd rhain yn dawnsio heddiw
i fwisig pêr y gwynt —
gan ddwyn i gof hen wanwyn
fu yn yr amser gynt.

JOHN V. MORRIS, Clwt-y-bont

DRAENOG



Fedwrch chi fynd i unlle heb i rywun,
eich gweld chi, na fedwrch? Gwraig
o Ddeiniolen oedd yn eistedd wrth
siop Woolworth ym Mangor pan
ddaeth clamp o wylan fôr heibio a
gadael ei hól ar ben y wraig druan.

Welodd hi mo'r wylan yn dod . . .
na chwaith y gymdages o Rydfadog
oedd yn cael paned mewn caff
gerllaw. Honno ddaeth a'r stori gan
ddeud bod y greadures wedi cael 'ail
in may' — o leiaf, dwi'n meddwl
mai dyna ddeudodd hi!

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, penblwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant —
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

ANTUR WAUNFAWR

Newydd Eleni - yn Siop Bryn Pistyll
Dewis o Nwyddau Arbennig gan
Grefftwyr Cymru

Galwch yma os yn edrych
am anrheg i rhywun arbennig



- planhigion ar gyfer yr haf yn barod 'rwan
- dewch a'ch basgedi draw i ni eu llenwi gyda lliw

DEWCH AM DRO I'R PARC

☎ 01286 650 721

www.anturwaunfawr.org

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CYDYMDEIMLO. Ddechrau'r mis bu farw Mrs Margaret Bardsey, Windy Corner, Y Rhos. Estynnir ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Ebrill 14. Croesawyd pawb gan Mrs Anne Elis, y llywydd. Cydymdeimlodd â Mrs Lynwen Morris ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Llongyfarchodd Non, merch Mrs Alys Jones ar ennill gradd MA; Rhys, mab Mrs Rhian Hughes ar ennill cystadleuaeth corn gan fynd drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; â Gary, mab Mrs Carys Williams, ar ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymunwyd gwellhad buan i David, priod Mrs Margaret Williams, ar ôl ei lawdriniaeth. Dymunwyd pob lwc i w'r Mrs Ann Lewis a oedd yn rhedeg yn Marathon Llundain.

Ar fyr rybudd roedd yn rhaid newid trefn y noson. Ymunodd yr aelodau mewn tipyn o hwyl drwy gynnal cwis gyda dau dîm yn rhoi cwestiynau i'w gilydd. Mrs Enid Williams a Mrs June Owen oedd yn gofalu am y te a Mrs Eirlys Williams enillodd y raffl.

I orffen cafwyd eitemau gan y côr oedd yn cystadlu yn Eisteddfod Merched y Wawr ym Methesda. Mrs Glenys Griffiths oedd yn arwain a Miss Mena Williams yn cyfeilio.

Swyddogion 1999/2000 — llywydd: Mrs Ann Lewis; is-lywydd: Mrs Glenys Griffiths; ysgrifennydd: Mrs Sharon Quinn; is-ysgrifennydd: Mrs Eirlys Williams; trysorydd: Mrs Edwina Morris; is-drysorydd: Mrs

Enid Williams. Aelodau'r pwyllgor — Mrs Deilwen Hughes, Mrs Alys Jones, Mrs Rhian Hughes, Mrs Lynwen Morris, Mrs Ceinwen Williams, Mrs Nan Rowlands.

Llongyfarchiadau i gôr y gangen ar ddod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Rhanbarth a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Bydd y côr yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Merched y Wawr yn Llandrindod ym mis Mehefin. Pob dymuniad da i'r merched.

KOSOVO. Roedd casgliad rhydd yn y Cysegr Suliau, Ebrill 18 a 25 yn cael ei anfon i Gronfa Kosovo Cymorth Cristnogol. Diolch o galon i bawb am eu haelioni i'r achos teilwng hwn.

CWLB BRO BETHEL. Prynawn dydd Mawrth, 6 Ebrill cynhaliwyd cyfarfod o dan lywyddiaeth Mrs Bessie Ellis yn absenoldeb anorfod y Parchg Gwynfor Williams. Wrth groesawu pawb dymunodd ben-blwydd hapus i bedair o'r aelodau oedd wedi dathlu eu pen-blwydd ers y cyfarfod diwethaf neu yn cael eu pen-blwydd yn ystod y dyddiau nesaf. Estynnwyd croeso arbennig i Huw Williams o Ddeganwy ynghyd â'i wraig, Elisabeth. Ei destun am sgwrs y tro yma oedd atgofion oedd ganddo am lawer cymeriad a gyfarfu tra yn yr heddlu ynghyd ag adrodd ambell stori troeon trwstan. Diolchwyd iddo gan Trefor Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Griffiths, Bro Rhos i dathlu ei phen-blwydd a chafodd pob un ran o'r gacen.



PRIODAS. Yng Nghapel y Cysegr ddydd Sadwrn, 27ain Mawrth, priodwyd Sioned Meleri Owen, Cefn Cynrig â Paul Antony Terry o Cranwell, Lincoln. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedigion W. R. Williams a D. Rowlands. Mwynhawyd y wledd briodas yn Neuadd Henllys, Biwmares yng nghwmni 120 o deulu a ffrindiau. Treuliyd pythefnos o fis mel ar Ynys Fialhohi yn y Maldives. Byddant yn cartrefu yng Nglanwydden. Mae Paul yn cwblhau cwrs M.Mus ym Mhrifysgol Bangor a Sioned yn diwtor peripetig cynllun William Mathias.

Mae Sioned a Paul yn diolch o galon i gymdogion, ffrindiau a theuluoedd am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da; ac i blant a chydathrawon yr Ysgol Sul y Cysegr am y llun hardd.

YR URDD. Mae dau o fechgyn ifanc y pentref ar eu ffordd i Lanbedr Pont Steffan yn dilyn llwyddiant yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri yn ddiweddar. Enillodd Huw Alun

Foulkes, Tyddyn Gwndwn yr unawd bechgyn dan 15 oed; a Rhys Wyn Hughes, Erddir am chwythu corn dan 12 oed. Pob llwyddiant i'r ddau yn yr Eisteddfod fawr.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Gwen Rowlands, 23 Y Ddôl ar lwyddo mewn arholiad Theori, gradd 3, yn ddiweddar.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr mis mawr oedd: £20 Mair Jones, Cilan, Tan-y-cae (43); £10 Eleri Warrington, Wern Bach (15); £5 yr un i Elwyn Hughes, Bryn Ogwen (157); Joan Joknes, Rhos Chwilog (120); Owen Jones, Isfryn (202); Ceris Williams, Llyfnwy, Tan-y-cae (107); Katherine Jones, Y Ddôl Wen (21); Ceri Evans, Parciau Rhos (195); Eileen Griffiths, Ivy Cottage (190); Rhian Hughes, Erddig, Rhos-lan (86). RHEDEG MARATHON. Llongyfarchiadau i Arwel Lewis, Bro Eglwys a Gwilym Williams, Bro Rhos ar redeg Marathon Llundain eleni. Rhedodd Arwel y cwrs mewn 2 awr 39 munud a Gwilym mewn 3 awr 46 munud. Tipyn o gamp!



Rhys Wyn Hughes


Mai 6

**bwrwch eich
pleidlais dros
Dafydd Wigley**

**eich aelod cyntaf yn y
Cynulliad Cenedlaethol**

ARWEINYDD WRTH REDDF

**Rhydd o hualau Llundain
Rhydd i roi Cymru'n gyntaf**




Dafydd Wigley



Cyhoeddwyd gan Merfyn Jones-Evans, Swyddfa Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon.

CROESAIR MIS MAI



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Enwau Beiblaidd yw'r rhai sydd heb gliwiau iddynt, ond fydd dim rhaid i chi fynd ymhell i'w darganfod.

I LAWR

1. Ergyd o'r talcen is (8)
3. Cyfaredd Idris Wyn Jones (4)
4. Mynachlog (8)
5. Poen bugail o Estonia (4)
7. Brenhines (8)
8. 3 a 5 er enghraifft (7)
13. Dynes gybyddlyd (7)
14. Effeithiau niwlog a gynhyrchir gan nifer o sêr (7)
17. Cedowrach (8)
18. Yr oedd yn gwybod pwy yw pwy (6)
19. Hwn sy'n gwneud i'r car gyflymu (8)
20. Dim yn ewyllysgar (8)
21. Llys barn lle mae perthynas agos yn ymddangos (7)
27. Sŵn a wneir â'r genau (4)
28. Un owns ar bymtheg (4)


AR DRAWS

1. Oherwydd mae'n rhan o amcan y siaradwr (5)
9. Ofni'n fawr (7)
10. Gwelleifydd (8)
11. Ffars wirion am neidr (4)
12. Cael llaeth o wasgod Robin (5)
13. Y weithred o gneifio (5)
15. Yr hyn sy'n wahanol ac a adewir allan (7)
16. Cenfigennu (8)
21. Aderyn du lwerddon (4,4)
22. Help i roi'r esgid ar y droed (7)
24. Peidio mynd mor gyflym mewn car a fu'n rasio yn y Grand Prix (5)
25. Plentyn ieuanc (5)
26. Dyn proffesiynol sydd â chae ganddo yn yr ardal (4)
29. Newid i ffurf modern (8)
30. Sant a brenin bach dethol (7)
32. Peil blêr o ddisgynyddion (4)
33. Gwlad y Cataloniaid (5)

ATEBION CROESAIR EBRILL

Derbynias atebion i groesair Ebrill gan N. Hughes, Cwm-y-glo; Nan Owen, Llanberis; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Dorothy Jones, Llanrug; Mabel Parry, Porthmadog; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Owen, Llanberis; Elfed Evans, Llanllechid; Ceridwen Williams, Llanrug; Huw Tegid Roberts, Llanrug; M. P. Jones, Clynnog; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones, Pencaenewydd; Mair Foulkes, Penisarwaun; Mair Evans, Caernarfon; Moreen Lennon, Llanberis; Mary Davies, Waunfawr; E. Eirianwen Roerts, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; ac enillydd y mis hwn, sef Nansi Davies, Y Dreflan, 17 Maes Meugan, Rhuthun. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair y mis hwn, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Mai 17, os gwelwch yn dda.



**ETHOLIAD CYFFREDINOL
CYMRU
ETHOLIADAU CYNGOR
GWYNEDD
COFIWCH FYND I
BLEIDLEISIO AR
6ed o FAI**

DYDDIADUR MIS MAI

2. **Sul** **BRYNREFAIL:** Cymanfa Presbyteriaid Padarn yn y Capel am 2 a 6 o'r gloch. Arweinydd: Mrs Mair Hughes, Llanrug.
4. **Maw** **LLANBERIS:** Cymdeithas Capel Jerusalem: Parchg Gwynfor Williams
PENISARWAUN: Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am 7.15 p.m.
5. **Mer** **DEINIOLEN:** Cymdeithas Eglwys Llandinorwig: Parchg Idris Thomas, Trefor.
9. **Sul** **DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu Ebeneser am 10 a 5: Y Parchg Ddr Geraint Tudur.
11. **Maw** **LLANBERIS:** Gwasg Carreg Gwalch yn lansio llyfr *Slate Regions of North Wales* yn yr Amueddfa Lechi am 5. **LLANRUG:** Merched y Wawr
15. **Sad** **DEINIOLEN:** Agoriad Swyddogol adeilad newydd y Seindorf am 3.30 p.m. Croeso cynnes i bawb. **LLANBERIS:** Eisteddfod y pentref yn Ffestri Capel Coch am 12 a 6.
17. **Llun** **DEINIOLEN:** Merched y Wawr gyda Mr a Mrs Edward Morris Jones.
20. **Iau** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd: Parchg Idris Thomas, Trefor
21. **Gwe** **WAUNFAWR:** Cyfeillion yr Ysgol — Helfa Drysor yn cychwyn am 6.30 o'r Ganolfan.
- 23 **Sul** **DINORWIG:** Cyfarfod Pregethu Sardis am 2 a 5.30.: Y Pachg Dewi Morris, Trawsfynydd.

RHODDION

£12: Mr P. W. Williams, Corby. Mr E. Rowlands, Childen Thornton.
£10: Mrs Olwen Ebbrell, Coventry. Mr J. Evans Hughes, Leicester. Mr W. A. Jones, Poole, Mrs G. McCarthy, Lerpwl. Mr Meurig Owen, Lewisham. Emily Hughes, Caethro ac Olwen Llywelyn, Llanrug. Sioned a Paul, Cefn Cynrig, Bethel. Mrs Idris Jones, Goleufryn, Waunfawr. Cledwyn ac Elen Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug. Mrs Jane Williams a'r teulu, Bryn Llan, Llanrug. Er cof am Mrs Elen Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun gynt. Mrs Betty Evans, 9 Afon Rhos, Llanrug, er cof am fam annwyl, Mrs Marie Pritchard.
£7: Mrs A. Sidebotham, Stockport.

£6: Mrs Menna Byrne, Aberhonddu.

£5: Mr Geraint Huws Roberts, Bangor. Di-enw. Dr R. Fraser Williams, Sale. Arfon Jones, 6 Bryntirion, Penisarwaun. Catherine Williams, Bryntirion, Penisarwaun. Annie Williams, Meillionydd, Penisarwaun. Di-enw. Garry a Nia Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Er cof am Eirianwen Pritchard, 1 Bro Rhos, Bethel gan y teulu. Nesta Roberts, 12 Stryd Newton, Llanberis. Mrs Jennie Goldsworthy, 34 Hafod Olau, Deiniolen. Mrs Joan Parry a'r teulu, 3 Tai Gwyrfa, Deiniolen. Mrs Elizabeth Roberts, 4 Frongoch, Llanberis. Mrs E. W. Thomas, Dolwar, Llanrug.



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

CHWARAEON

Llythyr o'r galon . . .

Bu sawl cyfeiriad yn y wasg leol yn ddiweddar at anniddigrwydd pwyllgor a rhai o selogion Clwb Pêl-droed Deiniolen ynglŷn â'r cyfeiriad negyddol y mae pêl-droed lleol yn ei gymryd ar hyn o bryd. Mae a wnelo hyn â dyfarnu a gweinyddu'r gêm. Mae pla'r cardiau melyn a choch yn golygu cryn faich ariannol ar nifer o'r clybiau. Mae dau begwn pendant yma, sef y pwyllgorddyn gweithgar di-dâl sy'n gweithio er lles ei gymuned a'r dyfarnwr sy'n rhoi o'i amser i gynnal y gêm. Nid wyf am fynegi barn ond gyda chaniatâd Elfed Williams, Ysgrifennydd Clwb Deiniolen rwyf am gyhoeddi ei lythyr at Gymdeithas Pêl-droed Arfordir Gogledd Cymru. Rwyf wedi cyfieithu'r llythyr gwreiddiol heb newid ei arddull na'i gynnwys:

Ers tymor 1987-88 rwyf wedi bod yn aelod o bwyllgor Clwb Pêl-droed Deiniolen. Ers y cyfnod hwnnw rwyf wedi gweld dirywiad cynyddol yn safon y dyfarnu. Mae'n ymddangos erbyn hyn mai'r unig ffordd y mae dyfarnwr

Amrywiol Gampau Ysgol Brynrefail

Mae digon o amrywiaeth ar feysydd Brynrefail y dyddiau hyn a llwyddiant yn dilyn yn ei sgîl.

Ym myd y bêl-droed bu tîm blwyddyn 8 yn llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd. Wedi curo Ysgol Llanfair Caereinion o Bowys o 2-0 bydd y tîm yn chwarae yn y rownd derfynol yn Aberystwyth ddiwedd mis Ebrill.

Mae diddordeb Mr Holland mewn pêl-fasged yn amlwg yn treiddio drwedd i'r disgyblion. Tîm blwyddyn 8 yr ysgol fentrodd i dwrnament Eryri, i gystadlu yn erbyn saith ysgol arall. Brwydrodd yr ysgol i'r rownd derfynol i gyfarfod tîm ysgol Caergybi — cyn-ysgol Mr Holland. Mewn gêm o safon uchel y Monwysion a enillodd, a hynny trwy rwydo 'basged' yn y funud olaf.

Tîm amryddawn blwyddyn 8 fu'n cystadlu'n frwd ar y maes rygbi. Trwy ymroddiad ac ysbryd — a hynny mewn camp lled newydd i'r ysgol — cyrhaeddodd y tîm rownd gyn-derfynol Cwpan Gwynedd. Yn y rownd go-gynderfynol chwalodd Brynrefail yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen — ysgol â thipyn mwy o bedigri rygbi yn perthyn iddi — o 49-29. Mae'r nifer uchel o bwyntiau yn y gêm yn dystiolaeth i natur agored y dull o chwarae. Sgoriwyd saith cais i gyd gan Brynrefail, wedi eu rhannu rhwng yr asgellwr Ceirion Owen (2), Adam Griffiths (2) a Chris Williams (3). Trosodd Neil Jenkins yr ysgol Jason Deemer y saith cais.

Yn y rownd gyn-derfynol rhaid oedd crwydro tua Ysgol y Berwyn, Bala. Cafwyd gêm gyfartal, 17-17, wedi i Frynrefail fod ar y blaen ar yr egwyl; ond yn yr amser ychwanegol Hogia'r Wa oedd yr fuddugol a 22-17 oedd y sgôr terfynol.

Yr hyn sy'n galonogol yw mai'r timau ifancaf sy'n llwyddo ac mae hyn yn sicr yn gosod sylfaen am y blynyddoedd sydd i ddod. Amser cyffrous ar y meysydd chwaraeon.



Alun Wyn Evans, Cadeirydd, ac Elfed Williams, Ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Deiniolen.

yn gallu cadw rheolaeth ar gêm yw trwy'r gor-ddefnydd o'r cardiau coch a melyn.

Nid yw synnwyr cyffredin yn cael ei briod le gan ddyfarnwyr. I brofi'r pwynt cyfeiriad at gemau ddydd Sadwrn, Mawrth 27. Y diwrnod hwnnw yn y gemau yn ymwneud â dau dîm Deiniolen dangoswyd sawl cerdyn melyn ac yn anhygoel 5 cerdyn coch. (Cost hyn i'r clwb oedd £106.) Dangoswyd cerdyn melyn i un chwaraewr, Siôn Huws, am ddweud, 'Paid â bod yn wirion!' wrth y dyfarnwr. Mae hwn yn ebychiad ar y mwyafrif o feysydd pêl-droed o Sadwrn i Sadwrn. Fe gostiodd hynny £8 i'r Clwb. Pa mor aml y mae'r dyfarnu plentynnaidd yma yn digwydd

gyda'r arian yn chwyddo coffrau'r Coast FA a thalu am dripiu tramor i'w swyddogion? Ers i mi fod ar y pwyllgor mae nifer o glybiau lleol wedi chwalu oherwydd y baich ariannol. Cyfeiriad at Nantlle Vale, Caernarfon Reserves, Mountain Ranges, Harlech, Nantlle United, Bro Lleu, Caernarfon Boro, Felinheli Reserves, Talysarn Reserves, Tremadog, Porthmadog Juniors, Llanbedrog, Crosville, Hotpoint, ac yn y blaen. Gellwch roddi enw Deiniolen ar y rhestr hefyd os na fydd gwella yn sefyllfa ariannol y Clwb yn y dyfodol agos. Os na fydd pwyllgor y Coast FA yn barod i gefnogi mwy ar wreiddiau'r gêm, yna dim ond cychwyn dirywiad cyflym fydd hyn.



Tîm pêl-fasged blwyddyn 8 Ysgol Brynrefail.

Pytiau wrth basio . . .

★ Ym myd y dartiau roedd mor agos ag yw hi yn y Premiership ar frig Adran Merched Cylch Caernarfon. Bu tîm Morgan Lloyd yn gryf ers sawl tymor ond daeth merched y Wellington (ail) a Phenbont (trydydd) yn agos iawn at gipio'r tlws eleni. Dim ond dau bwynt oedd yn gwahanu'r timau ar ôl 30 o gemau. Mae'n debyg mai tîm Padarn Lake 'A' fydd tîm dynion mwyaf llwyddiannus bro'r Eco eleni a hwythau'n drydydd yn y brif adran.

★ Trist yw gorfod cofnodi fod tîm cyntaf Clwb Criced Fron Dinas wedi ymddiswyddo o adran gyntaf Cyngair Gwynedd. Cafodd 'tîm mabwysiedig' bro'r Eco cryn drafferth wedi i'w cae gael ei werthu. Mae'n anodd meithrin brwdfrydedd pan nad oes gan glwb gartref sefydlog. Y tristwch mwyaf yw nad oes bellach glwb yn ardal Caernarfon ar gyfer y llu o ieuencid sy'n ymddiddori yn y gêm.

Eifion yn disgleirio

Mae llwyddiant Eifion Williams yn y byd nofio yn parhau. Ym mis Mawrth bu Eifion yn cystadlu dros Gymru ym

Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain yn Iwerddon. Roedd o'n cystadlu dan 15 oed ac yn erbyn plant flwyddyn yn hŷn nag ef ond llwyddodd i ennill medal arian yn y gystadleuaeth 100m.

Ar ddechrau Ebrill roedd yn Abertawe yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru ac fe enillodd wyth cystadleuaeth, yn ogystal â dod yn ail mewn dwy arall.

Pythefnos yn ddiweddarach roedd o'n cynrychioli Bangor ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru ac fe enillodd bedair medal aur gan osod record ar gyfer y gystadleuaeth 100m.

Rhywbeth fel 'Rounders'

Cafodd taith disgyblion Ysgol Brynrefail i Fflorida gryn sylw. Un o'r gweithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer oedd ymweliad â gêm pêl-fas. Nid yw'n gêm sydd wedi cydio yn y cych yma. Serch hynny mae'r gêm yn gryf yn ardal Caerdydd ac mae torfeydd da yn dod i lefydd fel Parc y Rhath i weld y gemau. Cynhelir gêm ryngwladol flynyddol rhwng Cymru a Lloegr. Mae mwyafrif aelodau tîm Lloegr yn dod o Lannau Mersi. Yn lleol, chwaraewyd sawl gêm pêl-fas ar gae criced Bangor yn Nhŷ Newydd, Llandegai gan y milwyr Americanaidd o faes Awyr y Fali. Mae'n debyg bod yna fwy o 'home-runs' na 'sixes' ar y cae nawr.

Y gohebydd gwadd y mis hwn yw Owain Siôn Williams o Fethel, sy'n amryddawn iawn yn maes y campau. Dyma ei adroddiad o'i ymweliad a'r 'Ball-park' chwedl yr llauc!

Yn Fflorida cawsom gyfle heb ei ail i fynd i weld gêm pêl-fas rhwng Atlanta Braves a Houston Astros yng nghae pêl-fas Disney's Wide World of Sports. Nid oedd llawer o ddisgyblion ac athrawon eriod wedi gweld gêm pêl-fas ac felly roedd y rheolau yn ddiarth.

Roedd hi'n gêm ddiddorol ond roedd hi braidd yn ddiiflas gyda dim llawer o action. Er hynny roedd yr adloniant yn y dorf yn wych gyda llawer o wahanol ganeuon i'n diddori. Yn y diwedd colli wnaeth y Braves ond peidiwch â gofyn i mi sut gan fod y sgorio yn ddiarth ac yn anodd ei ddeall a'i ddisgrifio.

OWAIN SIÔN WILLIAMS

TLWS YR ECO

Bydd noson Tlws yr Eco yn cael ei chynnal ym mis Mehefin.

Ceir manylion yn y rhifyn nesaf.

Gobeithio bod y timau pêl-droed a phêl-rwyd wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth.